Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Papur Gwyn ar y farchnad fewnol

## Briff Ymchwil

Hydref 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6313**
E-bost: **Nia.Moss@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Papur Gwyn ar y farchnad fewnol

## Briff Ymchwil

Hydref 2020

**Awdur:**
Aled Evans, Gareth Howells, Rhiannon Lewis, Sara Moran, Nia Moss, Gruffydd Owen, Lucy Valsamidis

**Trosolwg o'r papur:**
Ar 16 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn ar farchnad fewnol y DU, gan nodi cynigion i ymgorffori Ymrwymiad newydd i Fynediad i'r Farchnad yn y gyfraith ar ddiwedd y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r papur yn trafod sail resymegol Llywodraeth y DU, yn amlinellu elfennau allweddol y cynigion, ac yn trafod rhai o'r materion sy'n deillio o'r Papur Gwyn a'r modelu economaidd a ddefnyddir i'w ategu. Mae hefyd yn nodi ymatebion cychwynnol rhanddeiliaid i'r Papur Gwyn.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................ 1**

**2. Mynediad i Farchnad y DU: Nwyddau ...................................... 2**

2.1. Yr Egwyddor Cydnabyddiaeth Gilyddol ar gyfer Nwyddau .......... 2

2.2. Yr Egwyddor Peidio â Gwahaniaethu ar Gyfer Nwyddau.............. 6

2.3. Eithriadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer Nwyddau ........................................................................ 8

2.4. Canllawiau yn ymwneud â Rhan 1........................................... 9

2.5. Gogledd Iwerddon ................................................................ 9

**3. Mynediad i Farchnad y DU: Gwasanaethau........................... 10**

3.1. Cydnabyddiaeth Gilyddol i Awdurdodiadau i Ddarparu Gwasanaethau ................................................................ 10

3.2. Rheoleiddiwr Gwasanaeth yn Gwahaniaethu yn Erbyn Darparwr Gwasanaeth ................................................................ 11

3.3. Gwasanaethau sydd wedi'u heithrio ........................................ 13

3.4. Effaith ymarferol y ddeddfwriaeth .......................................... 14

3.5. Cynnal Safonau.................................................................... 16

3.6. Esemptiadau......................................................................... 18

3.7. Pwerau Eraill yr Ysgrifennydd Gwladol ................................... 19

**4. Cymwysterau Proffesiynol ...................................................20**

4.1. Datgymhwyso cydnabyddiaeth awtomatig ..................................... 24

**5. Cyngor Annibynnol a Monitro Marchnad Fewnol y DU......24**

5.1. Monitro ac Adrodd ..................................................................................... 24

5.2. Pwerau casglu gwybodaeth ..........................................................................25

5.3. Llywodraethu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd .....26

5.4. Swyddogaethau Swyddfa'r Farchnad Fewnol .................................. 28

5.5. Cysylltiadau rhynglywodraethol - datrys anghydfodau................29

5.6. Rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol mewn anghydfodau................. 30

**6. Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon ...............................30**

6.1. Pwerau i wneud rheoliadau - Cymalau 44, 45 a 47 ..........................31

6.2. Cydsyniad seneddol ar gyfer Cymalau 44, 45 a 47 .......................33

6.3. Swyddogaethau i'w harfer gan Weinidogion Cymru.................... 34

6.4. Yr effaith ar y berthynas rhwng y DU a'r UE .....................................35

6.4.a Trafodaethau ynghylch y berthynas yn y dyfodol ................................ 35

6.4.b Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn) ...... 35

6.5. Gweithdrefn datrys anghydfodau y Cytundeb Ymadael .............36

6.6. Cydymffurfiaeth Cymru â›i rhwymedigaethau rhyngwladol, a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny ........................................................37

**7. Cymorth Ariannol a Rheoli Cymorthdaliadau ..................... 40**

7.1. Cymorth Ariannol: trosolwg .......................................................................40

7.2. Rhyngweithio â llywodraethau datganoledig .................................. 41

7.3. Rheoli Cymorthdaliadau ........ 42

**8. Cymhwysedd Deddfwriaethol ........ 43**

8.1. Yr effaith ar gymhwysedd ........ 44

**9. Ymatebion ........ 45**

9.1. Datganoli ........ 45

9.2. Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon ........ 47

# 1. Cyflwyniad

Gosododd Llywodraeth y DU **Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig** gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 9 Medi. Roedd hyn yn dilyn **ymgynghoriad pedair wythnos** ar yr agweddau ar y Bil sy'n ymwneud â›r farchnad fewnol, a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2020.

Mae'r Bil eisoes wedi pasio drwy Dŷ'r Cyffredin ac wedi dechrau ar ei daith drwy Dŷ'r Argwlyddi. Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu ei barn bod angen i ddarpariaethau'r Bil fod mewn grym erbyn i gyfnod pontio'r UE ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Bil yn cynnwys:

- darpariaethau sy'n gosod rheolau newydd ynghylch sut y gall deddfwrfeydd a llywodraethau yn y DU ddeddfu i reoleiddio nwyddau a gwasanaethau yn y dyfodol;
- darpariaethau ar reoleiddio cymwysterau proffesiynol yn y DU;
- darpariaethau ar weithredu protocol Gogledd Iwerddon-Iwerddon;
- darpariaethau i roi pwerau gwario newydd i Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig;
- a darpariaethau i gadw'n ôl bwerau sy'n gysylltiedig â rheoli cymorthdaliadau.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod angen cydsyniad deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig ar gyfer pob un o saith Rhan y Bil.

Mae'r Bil wedi bod yn ddadleuol. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod angen y darpariaethau'n ymwneud â›r farchnad fewnol yn y Bil er mwyn rheoli'r gwahaniaethau yn y DU ar ôl Brexit ond mae'r llywodraethau datganoledig **wedi galw'r** darpariaethau hyn yn ymgais i 'fachu grym'. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod angen y pwerau mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon-Iwerddon fel *backstop* pe bai negodiadau thrafodaethau gyda'r UE yn methu er eu bod yn torri cyfraith ryngwladol.  Mae sefydliadau'r UE **wedi ymateb yn gryf** i'r Bil ac wedi dweud y gallai fygwth cytundeb ar berthynas y DU â›r UE yn y dyfodol. Yn dilyn gwrthwynebiad i rai o'r darpariaethau'n ymwneud â Phrotocol yn y Bil, mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cytuno ar welliant gydag aelodau'r meinciau cefn.

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r prif ddarpariaethau ym mhob rhan o'r Bil, mae'n

ystyried rhai o'r prif faterion sydd wedi codi mewn perthynas â phob rhan, yn ystyried sut y gallai darpariaethau'r Bil effeithio ar Gymru a Senedd Cymru ac yn darparu enghreifftiau damcaniaethol o sut y gallai darpariaethau'r Bil weithio'n ymarferol. Darperir crynodeb o'r ymatebion i'r Bil hefyd.

Dyma fersiwn ddiweddaraf o'r papur hwn sy'n adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed wrth pan oedd y Bil ar ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin.

# 2. Mynediad i Farchnad y DU: Nwyddau

Mae Rhan 1 o'r Bil yn sefydlu egwyddorion marchnad fewnol y DU ar gyfer nwyddau. Yr egwyddorion hynny yw:

- yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau,
- yr egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau.

## 2.1. Yr Egwyddor Cydnabyddiaeth Gilyddol ar gyfer Nwyddau

Amlinellir yr **egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol** ar gyfer nwyddau yng nghymal 2. Mae'r egwyddor yn golygu bod nwyddau sy'n cael eu gwneud, neu eu mewnforio i, un rhan o'r Deyrnas Unedig sy'n **cydymffurfio** â gofynion deddfwriaethol perthnasol yn **y rhan honno** o'r Deyrnas Unedig, yn gallu cael eu gwerthu mewn rhannau **eraill** o'r Deyrnas Unedig, **heb orfod cydymffurfio** ag unrhyw ofynion deddfwriaethol perthnasol yn y rhannau eraill hynny.

Yn ogystal, os **nad** oes gan **un rhan** o'r Deyrnas Unedig ofynion deddfwriaethol sy'n gymwys i'r nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu neu eu mewnforio yno (h.y. heb eu rheoleiddio) yna gellir gwerthu'r nwyddau o hyd yn y rhannau **eraill** o'r Deyrnas Unedig, **heb orfod cydymffurfio** ag unrhyw ofynion deddfwriaethol sy'n gymwys i'r nwyddau yn y rhannau eraill hynny o'r Deyrnas Unedig.

Gelwir y gofynion deddfwriaethol perthnasol yn **ofynion perthnasol** ("relevant requirements") yn y Bil. Mae cymal 3 yn diffinio gofynion perthnasol fel unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gwahardd gwerthu nwyddau drwy gyfeirio at:

a) nodweddion y nwyddau (megis eu cyfansoddiad, eu hoedran neu eu hansawdd;
b) y ffordd y cyflwynir y nwyddau (megis deunydd pacio neu labeli);
c) sut y cynhyrchir y nwyddau (megis y man lle cawsant eu cynhyrchu, gan gynnwys magu, cadw neu ladd anifeiliaid);

d) adnabod neu olrhain anifail (megis tagio neu ddefnyddio sglodion electronig);
e) archwilio, asesu, cofrestru, ardystio, cymeradwyo neu awdurdodi'r nwyddau;
f) y ddogfennaeth neu'r wybodaeth y mae'n rhaid eu cadw neu sy'n gorfod bod gyda'r nwyddau;
g) unrhyw beth arall y mae'n rhaid ei wneud, neu na ddylid ei wneud, mewn perthynas â›r nwyddau cyn y gellir eu gwerthu.

Mae cymal 3(4) – 3(6) yn darparu bod y gofyniad ynghylch y dull gwerthu (sy'n ofyniad statudol sy'n ymwneud â materion fel y modd y mae nwyddau'n cael eu gwerthu, ymhle y maen nhw'n cael eu gwerthu, i bwy, a'u pris) yn cael ei eithrio o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, oni bai ei fod wedi'i 'gynllunio'n artiffisial' i osgoi gweithrediad yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

Mae cynnwys pris yn y gofyniad dull gwerthu yn golygu y byddai gwerthu nwyddau trwy gyfeirio at bris (fel deddfwriaeth ar isafbris unedau) y tu allan i gwmpas yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Felly, mae'r enghraifft yn ymwneud â'r isafbris am alcohol wedi'i dileu o'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r papur briffio.

Enghraifft ddamcaniaethol 1: **Cnydau a Addaswyd yn Enetig**

Mae deddfwriaeth yn Lloegr yn caniatáu gwerthu bwyd a wneir gan ddefnyddio cnydau a addaswyd yn enetig, ar yr amod bod y bwyd wedi'i ardystio.

Mae deddfwriaeth yng Nghymru yn gwahardd gwerthu bwyd a wneir gan ddefnyddio cnydau a addaswyd yn enetig.

A allai gweithgynhyrchydd yn Lloegr werthu bwyd wedi'i wneud â chnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru, ar yr amod ei fod wedi'i ardystio? Gadewch i ni ystyried yr enghraifft ganlynol:

- Gwneir y bwyd yn un rhan o'r Deyrnas Unedig (Lloegr).
- Gellir gwerthu'r bwyd yn gyfreithlon yn Lloegr oherwydd ei fod yn cydymffurfio â›r gofyniad perthnasol, sef ei fod wedi'i ardystio.
- Nid yw'r gwaharddiad ar werthu'r bwyd yng Nghymru yn gymwys i'r bwyd. Mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys a gellir gwerthu'r bwyd yng Nghymru.

Beth pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu profi bod y bwyd yn anniogel ac yn fygythiad difrifol i iechyd pobl? Os felly, gellid ei eithrio o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn rhinwedd Atodlen 1 i'r Bil - ond mae Atodlen 1 yn nodi sawl amod y mae'n rhaid ei fodloni cyn y byddai gwaharddiad o'r fath yn gymwys.

Mae cymal 4 yn eithrio rhai pethau o'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Os,oes gan **un** rhan o'r Deyrnas Unedig ofyniad perthnasol y diwrnod cyn i gymal 4 ddod i rym, nad yw'n cael ei efelychu ym **mhob un** o'r tair rhan arall o'r Deyrnas Unedig (h.y. os yw'r gofyniad perthnasol yn rhywbeth unigryw i un rhan o'r Deyrnas Unedig), yna ni fydd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys. Fodd bynnag, os yw'r gofyniad unigryw yn cael ei **newid yn sylweddol** wedi hynny, bydd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys.

Enghraifft ddamcaniaethol 2: **Cynnwys diodydd meddal**

Mae deddfwriaeth yn yr Alban yn gwahardd mwy na 0.5 gm o siwgr mewn potel o ddiod feddal. Mae'r ddeddfwriaeth mewn grym y diwrnod cyn i gymal 4 ddod i rym. Mae cynnwys siwgr potel o ddiod feddal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon heb ei reoleiddio.

A ellid mewnforio potel o ddiod feddal a gynhyrchir dramor i Loegr a'i gwerthu yn yr Alban er bod y siwgr yn y botel yn uwch na 0.5gm?

- Mae'r botel o ddiod feddal wedi'i mewnforio i un rhan o'r Deyrnas Unedig (Lloegr).
- Gellir gwerthu'r ddiod feddal yn gyfreithlon yn Lloegr oherwydd nad oes unrhyw ofynion perthnasol i gydymffurfio â nhw (nid yw'r siwgr mewn diodydd meddal wedi ei reoleiddio yn Lloegr).
- Ond mae deddfwriaeth yr Alban ar siwgr mewn diodydd meddal yn ofyniad perthnasol unigryw sydd eisoes mewn grym cyn i gymal 4 ddod i rym. Nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys ac ni ellir gwerthu'r botel o ddiod feddal yn yr Alban oherwydd bod y siwgr sydd ynddi yn uwch na 0.5gm.

Ar ôl i gymal 4 ddod i rym mae'r Alban yn penderfynu lleihau'r siwgr y gellir ei gynnwys mewn potel o ddiod feddal i 0.2gm. Yn dilyn y newid hwnnw, a ellid mewnforio potel o ddiod feddal a gynhyrchir dramor i Loegr a'i gwerthu yn yr Alban er bod y siwgr yn y botel yn uwch na 0.2gm?

- Mae'r botel o ddiod feddal wedi'i mewnforio i un rhan o'r Deyrnas Unedig (Lloegr).
- Gellir gwerthu'r ddiod feddal yn gyfreithlon yn Lloegr oherwydd nad oes unrhyw ofynion perthnasol i gydymffurfio â nhw (nid yw'r siwgr mewn diodydd meddal wedi ei reoleiddio yn Lloegr).
- Mae deddfwriaeth yr Alban wedi newid yn sylweddol uchafswm y siwgr y gellir ei gynnwys mewn potel o ddiod feddal ar ôl i gymal 4 ddod i rym. Mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys a gellir gwerthu diod feddal sy'n cynnwys mwy na 0.2gm o siwgr yn yr Alban.

Nid yw gwerthiannau a wneir at ddibenion **swyddogaeth gyhoeddus** yn cael eu cwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

> **Presgripsiwn y GIG**
>
> **(Daw'r enghraifft o'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil)**
>
> Ni fyddai cyflenwi meddyginiaeth gan y GIG i glaf drwy bresgripsiwn yn cael ei gwmpasu gan ei fod yn werthiant a wneir gan awdurdod cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.

## 2.2. Yr Egwyddor Peidio â Gwahaniaethu ar Gyfer Nwyddau

Nodir yr **egwyddor peidio â gwahaniaethu** ar gyfer nwyddau yng nghymal 5. Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn golygu y gwaherddir gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn seiliedig ar **driniaeth wahaniaethol** i nwyddau lleol a nwyddau sy'n dod i mewn i'r rhan honno o'r Deyrnas Unedig.

Byddai'n rhaid i'r driniaeth wahaniaethol ddeillio o ofyniad perthnasol. Mae cymal 6 yn diffinio gofyniad perthnasol mewn rhan o'r Deyrnas Unedig fel unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gymwys i nwyddau a werthir yn y rhan honno ac mae'n cynnwys:

a) yr amgylchiadau neu'r dull y gwerthir y nwyddau (er enghraifft, pryd, gan bwy, i bwy neu'r telerau y caniateir eu gwerthu);
b) cludo, storio, trin neu arddangos nwyddau;
c) archwilio, cymeradwyo neu awdurdodi nwyddau;
d) rheoleiddio busnesau sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau penodol.

Mae'r rhestr lawn o'r math o ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas yr egwyddor peidio â gwahaniaethu yng nghymal 6(3) o'r Bil.

Diffinnir gwahaniaethu uniongyrchol yng nghymal 7. Os yw gofyniad perthnasol yn gymwys i nwyddau sy'n dod i mewn i ran o'r Deyrnas Unedig ond nad yw'n gymwys i nwyddau lleol, a bod y gofyniad perthnasol yn rhoi nwyddau sy'n dod i mewn i ran o'r Deyrnas Unedig dan anfantais o gymharu â nwyddau lleol, yna mae'n achos o wahaniaethu uniongyrchol ac ni fydd yn cael ei ganiatáu.

Enghraifft ddamcaniaethol 3: **Gwerthu beiciau**

Dywed deddfwriaeth yr Alban fod yn rhaid i feiciau a wneir yng Nghymru gael eu harddangos yn siopau'r Alban mewn modd llai amlwg na beiciau a wneir yn yr Alban. A yw hyn yn achos o wahaniaethu uniongyrchol?

- Nid yw deddfwriaeth yr Alban yn gymwys i nwyddau lleol (beiciau a wneir yn yr Alban).
- Mae deddfwriaeth yr Alban yn rhoi nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad (beiciau a wneir yng Nghymru) dan anfantais o gymharu â›r nwyddau lleol.
- Mae'r ddeddfwriaeth hon yn yr Alban yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ac ni chaniateir hyn o dan y Bil.

Diffinnir gwahaniaethu anuniongyrchol yng nghymal 8. Os nad yw gofyniad perthnasol yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ond ei fod yn dal i roi nwyddau sy'n dod i mewn i'r wlad **dan anfantais**, yn cael **effaith andwyol sylweddol ar y gystadleuaeth** yn y farchnad ar gyfer y nwyddau yn y Deyrnas Unedig ac ni ellir yn rhesymol ei ystyried yn **ddull angenrheidiol o gyflawni nod cyfreithlon**, yna mae'n achos o wahaniaethu anuniongyrchol ac ni fydd yn cael ei ganiatáu.

Dywed Cymal 8(6) mai'r nodau dilys yw:

a) amddiffyn bywyd neu iechyd bodau dynol, anifeiliaid neu blanhigion;
b) amddiffyn diogelwch y cyhoedd.

Enghraifft ddamcaniaethol 4**: Cludo Anifeiliaid Byw**

Dywed deddfwriaeth Gogledd Iwerddon na ddylai anifeiliaid byw sy'n cyrraedd marchnadoedd i'w gwerthu yng Ngogledd Iwerddon fod wedi teithio am fwy na 110 o filltiroedd o'r man y cawsant eu magu ddiwethaf.

A yw hyn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn ffermwyr sy'n dymuno cludo anifeiliaid byw o Loegr i Ogledd Iwerddon, ond na allant wneud hynny oherwydd byddai'r pellter teithio bob amser yn fwy na 110 o filltiroedd?

- Mae deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn gymwys i anifeiliaid byw sy'n cael eu cludo o Loegr mewn ffordd sy'n rhoi ffermwyr yn Lloegr dan anfantais o gymharu â ffermwyr yng Ngogledd Iwerddon drwy ei gwneud hi'n anoddach (yn yr achos hwn, yn amhosibl) cludo anifeiliaid byw o Loegr i Ogledd Iwerddon i'w gwerthu.
- Er mwyn gwahaniaethu'n anuniongyrchol, byddai'n rhaid i ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon hefyd gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad am anifeiliaid byw yn y Deyrnas Unedig.
- Fodd bynnag, os yw deddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn fodd angenrheidiol o gyflawni'r nod dilys o ddiogelu iechyd anifeiliaid, yna nid yw'n achos o wahaniaethu anuniongyrchol. Gall hyn arwain at ymgyfreitha ynghylch a yw'r terfyn 110 o filltiroedd yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd anifeiliaid. Pe dewiswyd 110 o filltiroedd dim ond oherwydd mai dyna'r pellter mwyaf y gellir ei deithio o fewn Gogledd Iwerddon, mae'n annhebygol y gellid cyfiawnhau'r terfyn.

Noder hefyd bod y math hwn o wahaniaethu anuniongyrchol yn cael cymaint o effaith ar Loegr (ac ar lawer o Gymru a'r Alban) fel y gall fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Noda cymal 9 fod unrhyw ddeddfwriaeth sydd **mewn grym y diwrnod cyn** i gymal 9 ddod i rym **wedi'i heithrio** o'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu. Fodd bynnag, os yw'r ddeddfwriaeth honno yn **newid yn sylweddol** wedi hynny, bydd yn ddarostyngedig i'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu.

## 2.3. Eithriadau o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer Nwyddau

Mae Atodlen 1 yn rhestru meysydd polisi sydd **wedi'u heithrio** o'r egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau. Mae'r rhestr yn cynnwys bygythiadau i **iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion**, **cemegau** a

**threthiant., rhai mesurau sy'n ymwneud â gwrteithiau a phlaladdwyr.** Hefyd, mae Deddfau Seneddol sy'n cynnwys gofynion perthnasol sy'n gymwys i'r rhan o'r Deyrnas Unedig y mae'r nwyddau'n deillio ohoni a'r rhan y byddant yn cael eu hanfon iddi wedi'u heithrio o'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu.

> Enghraifft ddamcaniaethol 5**: Gwerthu nwyddau yn ystod epidemig**
>
> Mae deddfwriaeth Lloegr yn gwahardd gwerthu unrhyw nwyddau o Gymru yn Lloegr, oherwydd bod epidemig yng Nghymru nad yw eto wedi cyrraedd Lloegr. A yw hyn yn achos o wahaniaethu uniongyrchol?
>
> - Os gellir cyfiawnhau deddfwriaeth Lloegr yn rhesymol fel ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus, yna nid yw'n achos o wahaniaethu uniongyrchol yn rhinwedd yr eithriad sy'n ymwneud â bygythiad i iechyd dynol yn Atodlen 1.

Nid yw gwerthiannau a wneir at ddibenion cyflawni **swyddogaeth gyhoeddus** yn cael eu cwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

## 2.4. Canllawiau yn ymwneud â Rhan 1

Mae Cymal 12 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar unrhyw fater sy'n ymwneud â gweithrediad ymarferol egwyddorion y Deyrnas Unedig ar fynediad i'r farchnad neu effaith unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 1.

Gall canllawiau gael eu rhoi i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i gategorïau penodol o bobl, fel masnachwyr neu gyrff sydd â swyddogaeth orfodi mewn perthynas ag unrhyw ofynion rheoleiddiol sy'n dod o dan Ran 1 o'r Bil. Mae'r pŵer yn cynnwys pwerau i dynnu'n ôl neu i adolygu'r canllawiau hynny. Nid oes angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag unrhyw un, gan gynnwys y llywodraethau datganoledig na'r Swyddfa'r Farchnad Fewnol newydd, cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau o'r fath.

## 2.5. Gogledd Iwerddon

Mae cymal 11 yn addasu egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau yn gymwys i nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon ("qualifying Northern Ireland goods") fel pe baent wedi'u cynhyrchu, neu eu mewnforio i Ogledd Iwerddon. Ond nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys i unrhyw nwyddau eraill sy'n cael eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon, neu sy'n cael eu mewnforio yno, oni bai eu bod yn symud

o Ogledd Iwerddon i Gymru, Lloegr neu'r Alban yn yr un modd â nwyddau sy'n cael eu mewnforio i'r lleoedd hynny o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

At ddibenion yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu, nid oes gan nwyddau nad ydynt yn nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon gysylltiad perthnasol â Gogledd Iwerddon, ac felly ni fyddai'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu yn gymwys.

Mae cymal 43 yn Rhan 5 o'r Bil yn diffinio nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon drwy gyfeirio at adran 8C(6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, sydd yn ei thro yn darparu bod gan y term nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon ("qualifying Northern Ireland goods") yr ystyr a roddir iddo gan Weinidog y Goron drwy reoliadau. Nid oes unrhyw reoliadau o'r fath wedi'u gwneud eto.

# 3. Mynediad i Farchnad y DU: Gwasanaethau

Mae Rhan 2 o'r Bil yn llywodraethu rheoleiddio darparwyr gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae Rhan 2:

- yn sefydlu egwyddor o gydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer awdurdodiadau i ddarparu gwasanaethau, ac
- yn gwahardd rheoleiddiwr gwasanaeth rhag gwahaniaethau yn erbyn darparwr gwasanaeth.

## 3.1. Cydnabyddiaeth Gilyddol i Awdurdodiadau i Ddarparu Gwasanaethau

Nodir yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn achos **awdurdodiadau i ddarparu gwasanaethau** yng nghymal 18. Lle mae'n ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gael **caniatâd** rheoleiddiwr cyn darparu gwasanaethau yn **un** rhan o'r Deyrnas Unedig, nid yw'r gofyniad hwnnw'n gymwys i berson sydd eisoes **wedi'i awdurdodi** i ddarparu'r gwasanaethau hynny mewn rhan **arall** o'r Deyrnas Unedig.

Enghraifft ddamcaniaethol 6: **Gwasanaethau Landlord Preifat**

Dywed deddfwriaeth Cymru ei bod yn rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaethau landlord preifat (h.y. llety rhent preifat) yng Nghymru gael caniatâd rheolydd Cymru cyn y gall yr unigolyn ddarparu'r gwasanaethau.

Dywed deddfwriaeth Lloegr ei bod yn rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaethau landlord preifat (h.y. llety rhent preifat) yn Lloegr gael caniatâd rheolydd Lloegr cyn y gall yr unigolyn ddarparu'r gwasanaethau.

- Gall unigolyn sydd wedi cael caniatâd rheoleiddiwr i ddarparu gwasanaethau landlord preifat yn Lloegr ddarparu'r gwasanaethau hynny yng Nghymru o dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Ac i'r gwrthwyneb.
- Fodd bynnag, os yw deddfwriaeth Cymru mewn grym ar y diwrnod cyn i gymal 16 ddod i rym, ni fydd deddfwriaeth Cymru yn gyfystyr â gofyniad awdurdodi ac ni fydd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys oherwydd yr eithriad yng nghymal 16(5)(c)(i).
- Hefyd, os yw deddfwriaeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gael eu cofrestru mewn perthynas ag eiddo penodol, ni fydd deddfwriaeth Cymru yn gyfystyr â gofyniad awdurdodi ac ni fydd yn cael ei chwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol oherwydd yr eithriad yng nghymal 18(3).
- Ar y llaw arall, os nad oedd deddfwriaeth Lloegr mewn grym ar y diwrnod cyn i gymal 16 ddod i rym, neu os yw deddfwriaeth Lloegr yn awdurdodi landlordiaid ar sail gyffredinol ar gyfer unrhyw eiddo (yn hytrach na gofyn am awdurdodiad ar gyfer pob eiddo unigol), yna mae deddfwriaeth Lloegr yn gyfystyr â gofyniad awdurdodi a bydd yn cael ei chwmpasu gan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.
- Byddai hyn yn golygu y gallai landlord sydd wedi cael caniatâd gan reoleiddiwr yn Lloegr i fod yn landlord yng Nghymru fanteisio ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol a bod yn landlord yng Nghymru heb gael caniatâd gan reoleiddiwr Cymru.

Noder nad yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn gymwys i wasanaethau tai cymdeithasol.

## 3.2. Rheoleiddiwr Gwasanaeth yn Gwahaniaethu yn Erbyn Darparwr Gwasanaeth

O dan gymal 19, nid yw **gwahaniaethu uniongyrchol** gan reoleiddiwr gwasanaeth yn erbyn darparwr gwasanaeth yn cael dim effaith. Os yw

deddfwriaeth yn dweud na all darparwr gwasanaeth ddarparu gwasanaeth oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn **bodloni gofyniad**, a bod y gofyniad:

a) yn cael yr effaith o drin y darparwr gwasanaeth yn **llai ffafriol** na darparwyr gwasanaeth eraill, a
b) y rheswm am y driniaeth lai ffafriol yw **cysylltiad perthnasol**("relevant connection") (neu ddiffyg cysylltiad perthnasol) y darparwr gwasanaeth â rhan o'r Deyrnas Unedig,

yna mae'r gofyniad yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ac nid yw'n cael unrhyw effaith. Ond ni fydd gofyniad o'r fath yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol os gellir ei gyfiawnhau'n rhesymol fel ymateb i **argyfwng iechyd cyhoeddus**.

Mae gan ddarparwr gwasanaeth gysylltiad perthnasol â rhan o'r Deyrnas Unedig:

a) os oes gan y darparwr gwasanaeth swyddfa gofrestredig, man busnes neu breswylfa yn y rhan honno;
b) oes yw'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaethau o'r rhan honno o'r DU; neu
c) os oes gan y darparwr gwasanaeth aelodau, partneriaid, swyddfeydd neu staff sydd â swyddfa gofrestredig, man busnes neu breswylfa yn y rhan honno o'r DU.

O dan gymal 20, nid yw **gwahaniaethu uniongyrchol** gan reoleiddiwr gwasanaeth yn erbyn darparwr gwasanaeth yn cael dim effaith. Os yw deddfwriaeth yn dweud na all darparwr gwasanaeth ddarparu gwasanaeth oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn **bodloni gofyniad**, a bod y gofyniad:

a) heb fod yn uniongyrchol wahaniaethol (fel y disgrifir uchod),
b) yn rhoi'r darparwr gwasanaeth **dan anfantais** yn y rhan o'r Deyrnas Unedig lle mae'r gofyniad yn gymwys;
c) yn cael **effaith niweidiol ar y farchnad**; a
d) ni ellir ei ystyried yn **ddull angenrheidiol o gyflawni nod dilys**,

yna mae'r gofyniad yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol ac nid yw'n cael unrhyw effaith.

Dywed Cymal 20(6) mai'r nodau dilys yw:

a) amddiffyn bywyd neu iechyd bodau dynol, anifeiliaid neu blanhigion;
b) amddiffyn diogelwch y cyhoedd;

Enghraifft ddamcaniaethol 7: **Gweithwyr Amaethyddol**

Mae deddfwriaeth yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr amaethyddol feddu ar sgiliau Cymraeg, er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg mewn ardaloedd gwledig. A yw hyn yn wahaniaethu uniongyrchol?

- Nid yw'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, ond gallai roi gweithiwr amaethyddol o Loegr dan anfantais o gymharu â gweithiwr amaethyddol o Gymru (oherwydd bod gweithiwr amaethyddol o Gymru yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg).
- Er mwyn gwahaniaethu'n anuniongyrchol, byddai'n rhaid i ddeddfwriaeth Cymru hefyd gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad am weithwyr amaethyddol yn y Deyrnas Unedig.
- Nid oes unrhyw nod dilys a allai gyfiawnhau deddfwriaeth Cymru felly, os yw'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y farchnad, byddai'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol.

## 3.3. Gwasanaethau sydd wedi'u heithrio

Mae Cymal 17 yn nodi rhestr o bethau **nad ydynt yn cael eu cwmpasu** gan Ran 2 o'r Bil. Mae Cymal 16(5)(c)(i) hefyd yn eithrio unrhyw unrhyw ddeddfwriaeth sydd mewn grym y diwrnod cyn i gymal 16 ddod i rym. Felly, ni fydd y **gofynion presennol** yn rhan o'r trefniant cydnabyddiaeth gilyddol oni bai bod cymalau 16(6) a 16(7) yn gymwys.

Mae Cymal 16(6) yn nodi bod gofyniad sy'n bodoli eisoes sy'n cyfateb i ofyniad mewn man arall yn y DU yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth os yw'r gofyniad cyfatebol wedi cael ei 'newid yn sylweddol'. Mae cymal 16(7) yn nodi bod gofyniad yn cyfateb os yw yr un peth neu'n sylweddol yr un peth.

Enghraifft ddamcaniaethol 8: **Newid y gofyniad mewn perthynas â gwasanaeth**

- 2018: Gofyniad mewn grym yng Nghymru ynghylch Gwasanaeth X.
- 2019: Gofyniad cyfatebol mewn grym yn Lloegr ynghylch Gwasanaeth X.
- 2020: Deddf Marchnad Fewnol y DU yn dod i rym.
- 2022: Mae gofyniad Cymru ynghylch Gwasanaeth X yn aros yr un fath, felly nid yw egwyddorion y farchnad fewnol yn gymwys iddo.
- 2023: Mae'r gofyniad cyfatebol yn Lloegr ynghylch Gwasanaeth X yn newid yn sylweddol, felly mae egwyddorion y farchnad fewnol yn gymwys i ofynion Cymru a Lloegr ill dwy ynghylch Gwasanaeth X, er na fu unrhyw newid yn y gofyniad yng Nghymru.

Mae Atodlen 2 hefyd yn cynnwys rhestr o wasanaethau sydd **wedi'u heithrio** o Ran 2. Mae'r rhestr yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau tai cymdeithasol, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau trafnidiaeth.

# Y prif faterion

## 3.4. Effaith ymarferol y ddeddfwriaeth

Fel y nodir ym mhenodau 2 a 3 o'r briff hwn, mae'r Bil yn cyflwyno dwy egwyddor allweddol i lywodraethu sut mae nwyddau a gwasanaethau'n cael eu rheoleiddio a'u gwerthu ar ôl i gyfnod pontio'r UE ddod i ben. Yr egwyddor gyntaf yw cydnabyddiaeth gilyddol a'r ail yw peidio â gwahaniaethu Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i nwyddau a gwasanaethau fel ei gilydd.

Mae'r diffiniad o nwyddau yn y Bil yn eang. Yn ogystal â gwerthu nwyddau, mae hefyd yn cynnwys pethau fel labelu, cyfansoddiad, deunydd pacio, dulliau cynhyrchu a man cynhyrchu nwyddau. Mae hefyd yn cynnwys nwyddau a fewnforir i'r DU. Felly dim ond amodau'r wlad y cânt eu mewnforio iddi y bydd yn rhaid i nwyddau a fewnforir i'r DU eu bodloni er mwyn eu galluogi i gael eu gwerthu yn unrhyw le arall yn y DU.

Mae gwasanaethau'n ymwneud ag amrywiaeth eang o sectorau gan gynnwys adeiladu, twristiaeth, cyfrifeg, plymwyr a thrydanwyr, gwerthwyr tai ac asiantau gosod, cyfanwerthwyr, addysg breifat a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â busnes fel rheoli swyddfa neu hysbysebu.

Mae'r diffiniad o wahaniaethu anuniongyrchol yn eang ac mae'n cynnwys unrhyw

ddeddfwriaeth a allai roi nwyddau neu ddarparwyr gwasanaeth sy'n dod i mewn i un rhan o'r DU o ran arall dan anfantais ('disadvantage') ac sy'n cael effaith niweidiol ar y farchnad ('adverse market effect'). Mae'r Bil yn darparu diffiniad o effaith andwyol ar y farchnad yng nghymalau 8 a 20 ond nid yw'n darparu prawf ar gyfer anfantais. Gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol am resymau cyfyngedig, h.y. y nodau dilys a nodir yng nghymal 20(6).

Mae'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu yn egwyddor sy'n llywodraethu Marchnad Sengl yr UE. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol wedi bod yn egwyddor a fu'n destun dadl ym Marchnad Sengl yr UE ac yn destun nifer o achosion llys yn yr UE gan gynnwys rhai'n ymwneud **â'r** DU. Mae Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Pontio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru (Y Cwnsler Cyffredinol) wedi galw'r penderfyniad i gynnwys yr egwyddor gwahaniaethu anuniongyrchol yn y ddeddfwriaeth yn benderfyniad dybryd iawn.

Mae Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru **wedi nodi** y bydd Rhannau 1-2 o'r Bil yn arwain at 'erydu' cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru tra bod Llywodraeth y DU wedi nodi bod y Bil yn rhoi'r un rhyddid i'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig ddeddf ag sydd ganddynt nawr felly beth yw effaith ymarferol wirioneddol y Bil?

Nid yw Rhannau 1 a 2 o'r Bil yn creu unrhyw faterion newydd a gedwir yn **ôl** yn Neddf Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cyfyngu ar Lywodraeth neu Senedd Cymru rhag deddfu mewn meysydd sydd, ar hyn o bryd, yn feysydd **datganoledig.** Effaith allweddol y Bil yw cyfyngu ar bwy a beth fydd yn cael ei gwmpasu gan unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol newydd neu is-ddeddfwriaeth newydd a wneir ar ôl i'r Bil gael ei basio.

Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ddewis cyflwyno rheoliadau newydd ynghylch labelu diodydd llawn siwgr ond ar **ôl** i'r Bil gael ei basio, bydd y rheoliadau hyn yn gymwys i gynhyrchwyr Cymru yn unig - ni fyddant yn gallu gorfodi gofynion labelu newydd ar gynhyrchwyr mewn rhannau eraill o'r DU neu ar nwyddau a fewnforir i'r DU, hyd yn oed pan gânt eu gwerthu yng Nghymru. Mae'r llywodraethau datganoledig yn dadlau y gallai hyn wneud ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth newydd o ystyried faint o nwyddau sy'n llifo rhwng gwledydd y DU. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddewis rhoi ei chynhyrchwyr dan anfantais gystadleuol o gymharu ag eraill yn y DU. Byddai'r un peth yn wir am wasanaethau. Fodd bynnag, gallai cynhyrchwyr neu ddarparwyr gwasanaethau ddewis dilyn safonau uwch pe bai defnyddwyr yn galw am hynny, er enghraifft.

Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn cadarnhau, er nad yw'r darpariaethau yn Rhannau 1 a 2 o'r Bil yn newid y setliadau datganoli yn uniongyrchol, mae'r darpariaethau'n gwneud y canlynol:

> [...] create a new limit on the effect of legislation made in exercise of devolved legislative or executive competence. For example, clause 2(1) disapplies any legislative requirements that do not comply with the mutual recognition principle.

Mae'r un peth yn wir am ddeddfwriaeth eilaidd a wneir gan weinidogion y DU ar gyfer Lloegr.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd **â'r** Bil, a osodwyd yn Nhŷ'r Cyffredin pan gyflwynwyd y Bil, yn amlinellu mai un o gostau nad oes iddo werth ariannol sy'n gysylltiedig **â'r** Bil yw y gallai gyfyngu ar effaith gymdeithasol arfaethedig deddfwriaeth ddatganoledig:

> In certain instances, where parts of the UK pursue separate policies, the scale of the intended public benefit of local (devolved) measures might not be fully realised due to the more limited number of goods and services to which the policy applies, compared to the counterfactual of separate regulations without mutual recognition. This results from the fact that goods/services originating from elsewhere in the UK may, when placed on the local market, could be complying with different regulations adopted elsewhere in the UK. This could mean that societal benefits that could otherwise have occurred, were it not for mutual recognition, would be foregone.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi mewn perthynas â gwasanaethau y gallai fod llai o atebolrwydd i ddarparwyr gwasanaeth gan y byddant yn gallu dewis pa rannau o ofynion rheoliadol y DU y maent yn eu bodloni wrth weithredu mewn man arall yn y DU.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu barn Llywodraeth y DU y byddai'r costau nad oes gwerth ariannol iddynt yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiad mewn costau i fusnesau.

Mae rhai eithriadau yn y Bil i'r ddwy egwyddor allweddol hyn fel y nodir uchod.

## 3.5. Cynnal Safonau

Yn y **Papur Gwyn** a ragflaenodd y Bil, nododd Llywodraeth y DU ei bod wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel ym marchnad fewnol y DU pan fydd y DU yn gadael yr UE ac mewn rhai achosion yn gosod safonau uwch. Dywedodd y byddai'n gwneud hyn drwy weithio gyda'r llywodraethau datganoledig ar osod

fframweithiau polisi ar y cyd newydd mewn meysydd a oedd gynt yn dod o dan gyfraith yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd megis pysgodfeydd, ansawdd aer, labelu bwyd a chymorth amaethyddol. Gelwir y rhaglen waith hon yn rhaglen fframweithiau cyffredin ac mae wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Mae adran Ymchwil y Senedd wedi cynhyrchu **blog esboniadol** sy'n disgrifio'r rhaglen waith hon yn fwy manwl a **briff** sy'n crynhoi'r cynnydd a wnaed ar y rhaglen hyd yma.

## Lefelau safonau

Mae'r gwaith hwn ar gynnal safonau yn bwysig oherwydd effaith ymgorffori yn y gyfraith yr egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu. Fel yr eglurwyd uchod, gallai effaith ymarferol y ddeddfwriaeth olygu, lle mae gwahanol safonau yn bodoli ledled y DU, y gallai cynhyrchwyr symud eu gweithrediadau cynhyrchu nwyddau i'r wlad lle mae'r safonau isaf posibl ar waith.

Byddai'n rhaid i lywodraethau sy'n gosod safonau uwch ar gyfer eu cynhyrchwyr eu hunain wneud hynny gan wybod y byddent yn rhoi eu cynhyrchwyr dan anfantais gystadleuol. Yn ogystal, mewn perthynas â nwyddau, mae'r Bil yn darparu, lle nad oes unrhyw safonau'n gymwys h.y. os nad yw sector wedi'i reoleiddio mewn un rhan o'r DU, ni fyddai'n ofynnol iddo fodloni unrhyw safonau yn unrhyw le arall. O dan delerau'r Bil, os oes gwahaniaeth yn y ffordd y mae llywodraethau'r DU yn rheoleiddio gwasanaethau, gellid cymell busnesau i ddewis cael eu rheoleiddio mewn rhan o'r DU sydd â›r gofynion rheoliadol lleiaf ond parhau i ddarparu'r mwyafrif o'u gwasanaethau yn rhywle arall.

Byddai cytuno ar y cyd i safonau gofynnol ledled y DU mewn rhai meysydd polisi yn un ffordd o atal safonau rhag gostwng yn gyffredinol. Ym Marchnad Sengl yr UE mae safonau cyffredin neu safonau wedi'u cysoni, fel y'u gelwir, yn gymwys i **70-75% o'r nwyddau ar y farchnad.** Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu yn gymwys i ddim ond 25% o'r farchnad, felly ni fyddai hyn yn wir yn y DU ar hyn o bryd.

## Fframweithiau Cyffredin

Mae llywodraethau Cymru a'r Alban wedi awgrymu y gallai cwblhau'r rhaglen fframweithiau cyffredin lle mae llywodraethau'r DU yn cytuno ar y cyd i safonau gofynnol fod yn ddewis amgen i'r cynigion a nodir yn y Bil. Gohiriwyd cyflwyno'r rhaglen fframweithiau cyffredin oherwydd y pandemig Covid-19 a'r negodiadau parhaus rhwng y DU a'r UE.

Mae Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad, Ewrop a Materion Allanol, Michael Russell ASA, **wedi amlinellu ei farn** y gellid cyflymu gwaith ar y rhaglen fframweithiau cyffredin pe bai ewyllys wleidyddol i wneud hynny ond mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn cyfeirio at ddiffyg cynnydd y rhaglen fel rheswm dros gyflwyno'r Bil. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi amlinellu ei barn nad yw'r rhaglen fframweithiau cyffredin yn ddigonol i reoli gwahaniaethau rheoliadol ym mhob maes ar ddiwedd y cyfnod pontio.

**Tuedd y farchnad**

Mae rhai sylwebyddion **megis yr Athro Nicola McEwan a'r Athro Michael Dougan,** hefyd wedi tynnu sylw at y gwahaniaethau cynhenid ym marchnad y DU gan fod Lloegr, sef 87% o'r farchnad, yn dominyddu o ran maint. Mae hyn yn golygu y gallai fod cymhelliant cynhenid i gynhyrchwyr nwyddau ddilyn safonau Lloegr o ystyried maint cymharol y farchnad, boed y safonau'n uwch neu'n is.

## 3.6. Esemptiadau

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai esemptiadau penodol i egwyddorion cyffredinol y gydnabyddiaeth gilyddol i nwyddau a gwasanaethau. Mae'r rhain wedi'u nodi'n fanwl uchod.

Mae eithriad cyffredinol hefyd na fydd y Bil yn gymwys yn ôl-weithredol i ddeddfwriaeth sydd eisoes mewn grym ar y diwrnod y daw'r darpariaethau yn y Bil i rym oni bai eu bod yn destun newid sylweddol ('substantive change'). Nid yw'r Bil yn darparu diffiniad o newid sylweddol felly nid yw'n bosibl gwybod faint o newid y byddai angen ei wneud i ddarn o ddeddfwriaeth cyn i'r esemptiad hwn beidio â bod yn berthnasol iddo mwyach. Mae hyn yn golygu y gallai llywodraethau fod yn anfodlon gwneud newidiadau i ddiweddaru deddfwriaeth bresennol os oeddent yn ofni y byddai'n gyfystyr â newid sylweddol ac yn dod o dan ddarpariaethau'r Bil ar ôl iddo gael ei basio.

Caniateir esemptiadau hefyd o dan y rheolau sy'n llywodraethu Marchnad Sengl yr UE. Mae'r esemptiadau hyn, a oedd ar gael o'r blaen i lywodraethau yn y DU, yn ehangach o ran eu cwmpas na'r esemptiadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil. Er enghraifft, ym Marchnad Sengl yr UE, gall Aelod-wladwriaethau wyro oddi wrth yr egwyddorion ar sail budd y cyhoedd megis safonau amgylcheddol, amddiffyn treftadaeth neu foesoldeb. Ceir **crynodeb o'r gwahanol esemptiadau** y gall Aelod-wladwriaethau eu defnyddio o dan y rheolau sy'n llywodraethu Marchnad Sengl yr UE yn y briff a luniwyd ar gyfer Pwyllgorau Senedd Cymru gan Dr Kathryn Wright o Brifysgol Caerefrog.

Mae'r Athro Catherine Barnard wedi **amlinellu rhai meysydd** sydd wedi'u hesemptio o dan reolau rheoliad Marchnad Sengl yr UE nad ydynt yn ymddangos yn y Bil ac yn darparu enghraifft o'r gwahaniaethau.

Er bod y Bil yn darparu esemptiadau ar wyneb y Bil, gall yr Ysgrifennydd Gwladol newid y rhain gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio esemptiadau Atodlen 1 ar gyfer nwyddau a hefyd Atodlen 2 sy'n nodi pa sectorau gwasanaeth sy'n cael eu cwmpasu gan y Bil. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn safonol "gadarnhaol ddrafft" Senedd y DU.

Fodd bynnag, mewn perthynas ag Atodlen 2, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl i'r Bil gael ei basio, ddeddfu i ddod â sectorau sydd wedi'u heithrio o fewn cwmpas y Bil gan ddefnyddio'r weithdrefn frys "gadarnhaol a wnaed". Mae hyn yn golygu y byddai rheoliadau sy'n newid pwy sy'n esempt yn dod i rym yn awtomatig cyn gynted ag y byddent yn cael eu gwneud (a hyd yn oed cyn iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU). Yna byddai angen iddynt gael eu cymeradwyo gan ddau Dŷ Senedd y DU o fewn 40 diwrnod i'r dyddiad y cawsant eu gwneud. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae gwasanaethau iechyd wedi'u heithrio o ddarpariaethau'r Bil ond gallent gael eu cynnwys o'i fewn drwy reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y weithdrefn hon yn ystod 3 mis cyntaf y Bil.

Nid yw'r Bil yn cynnwys dyletswydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag unrhyw un cyn gwneud rheoliadau sy'n diwygio Atodlenni 1 neu 2.

Hefyd, diwygiwyd esemptiadau'r Bil mewn perthynas â gwasanaethau yn ystod taith y Bil trwy Dŷ'r Cyffredin. Yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin, roedd gofynion mewn perthynas ag awdurdodi neu reoleiddio gwasanaethau yn esempt ar yr amod eu bod wedi cael eu pasio cyn i'r Bil ddod yn ddeddf. Mae'r Bil bellach wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol pe bai'r un rheoliadau neu reoliadau tebyg yn bodoli mewn rhannau eraill o'r DU cyn i'r Bil gael ei basio, ac os yw'r rheoliadau hynny'n cael eu 'newid yn sylweddol' mewn un rhan o'r DU, yna byddai'r holl reoliadau sy'n cyfateb yn dod o fewn cwmpas y Bil.

## 3.7. Pwerau Eraill yr Ysgrifennydd Gwladol

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau hefyd i ddiwygio pa ofynion ynghylch gwerthu nwyddau sy'n dod o fewn cwmpas y Bil a pha ofynion ynghylch peidio â gwahaniaethu mewn perthynas â nwyddau sy'n dod o fewn cwmpas y Bil. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn gwneud gwelliannau a fyddai'n gwneud hyn ond nid yw'n ofynnol iddo ystyried unrhyw

farn neu sylwadau a wneir gan y llywodraeth ddatganoledig.

Mae Cymal 12 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar weithrediad Rhannau 1 a 2 o'r Bil. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys cyhoeddi canllawiau i fasnachwyr sy'n gweithredu ym mhob rhan o'r DU a chyrff datganoledig sydd â swyddogaethau rheoleiddio neu orfodi sy'n dod o dan y rhannau hyn o'r Bil. Nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori â llywodraethau datganoledig na rhanddeiliaid cyn y caiff canllawiau o'r fath eu cyhoeddi.

# 4. Cymwysterau Proffesiynol

Mae Cymal 22 yn cyflwyno'r egwyddor cydnabod awtomatig mewn perthynas â chymwysterau a rheoliadau proffesiynol. Pan fydd unigolyn eisiau ymarfer proffesiwn mewn un rhan o'r DU (y rhan berthnasol neu "the relevant part") ond wedi cymhwyso mewn rhan arall o'r DU (y rhan arall neu "the other part") byddai'n cael ei drin yn awtomatig fel unigolyn cymwysedig mewn perthynas â›i broffesiwn yn y rhan berthnasol.

Enghraifft ddamcaniaethol 9: **Cymwysterau**

Mae deddfwriaeth yng Nghymru (y rhan berthnasol yn yr enghraifft hon) yn dweud bod angen tri chymhwyster Safon Uwch ar gyfer proffesiwn penodol.

Mae deddfwriaeth yng ngweddill y Deyrnas Unedig (y rhan arall) yn mynnu pum TGAU.

A all rhywun o'r Alban, nad oes ganddo unrhyw gymhwyster Safon Uwch, gyflawni'r proffesiwn hwnnw yng Nghymru? Gall. Os oes ganddo bum TGAU, mae'n gymwys ar gyfer y proffesiwn yn yr Alban, ac os yw'n gymwys ar gyfer y proffesiwn yn yr Alban yna mae'r egwyddor cydnabod awtomatig yn golygu ei fod yn cael ei drin fel pe bai'n gymwys i ymarfer yng Nghymru.

Yn ei hymateb i gynigion y Papur Gwyn, mynegodd Llywodraeth Cymru ei phryderon ynglŷn â hyn yng nghyd-destun cymwysterau athrawon. Trafodir hyn ymhellach isod.

Pan fydd angen cymwysterau neu brofiad penodol i ymarfer proffesiwn yn y rhan berthnasol, ond nad oes angen yr un ohonynt i ymarfer y proffesiwn hwnnw yn y rhan arall, gall person o'r rhan arall ddal i ymarfer yn y rhan berthnasol heb orfod ennill unrhyw gymwysterau.

Enghraifft ddamcaniaethol 10: **Hyfforddiant**

Dywed deddfwriaeth yng Nghymru fod angen blwyddyn o brofiad hyfforddi ar gyfer proffesiwn penodol.

Nid yw deddfwriaeth yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn gofyn am unrhyw brofiad ar gyfer yr un proffesiwn.

A all rhywun o Loegr heb unrhyw brofiad gyflawni'r proffesiwn hwnnw yng Nghymru? Gall. Mae'r egwyddor cydnabod awtomatig yn golygu eu bod yn cael eu trin fel pe bai ganddyn nhw'r profiad sydd ei angen i ymarfer yng Nghymru.

Nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys os oes proses arall ar gyfer cydnabod cymwysterau neu brofiad proffesiynol unigolyn. Rhaid i'r broses gydymffurfio ag egwyddorion penodol a nodir yng nghymal 24 o'r Bil sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n dangos y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymarfer y proffesiwn.

Gweinyddir y broses amgen ar gyfer cydnabod cymwysterau gan y rheolydd proffesiynol perthnasol neu, os nad oes un, gan Lywodraeth y DU neu'r gweinyddiaethau datganoledig sy'n gyfrifol am y proffesiwn).

O dan gymal 25, ni fydd yr egwyddor cydnabod awtomatig yn berthnasol i ddarpariaethau sydd mewn grym ar y dyddiad y caiff y Bil ei basio. Fodd bynnag, os yw darpariaeth yn **newid yr amgylchiadau** lle mae unigolion yn gymwysedig mewn perthynas â phroffesiwn penodol **ar ôl** y dyddiad y caiff y Bil ei basio, yna bydd yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys.

Ni fydd yr egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys i ddarpariaethau sy'n cyfyngu ar y gallu i ymarfer proffesiwn cyfreithiol ychwaith. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw darpariaeth yn newid y gofynion ar gyfer cymhwyso i'r proffesiwn cyfreithiol ar ôl y dyddiad y caiff y Bil ei basio.

Mae cymal 26 yn gymwys pan fo'r gallu i ymarfer proffesiwn penodol yn un rhan o'r DU yn ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad. Gallai'r gofynion neu'r cyfyngiadau hyn fod yn ofynion sy'n ymwneud â chofrestru, monitro, yswiriant neu ddatblygiad proffesiynol parhaus. Ni ellir trin gweithwyr proffesiynol sy'n gymwysedig mewn rhan arall o'r DU yn llai ffafriol mewn perthynas â›r gofynion hyn na'r rhai sy'n gymwysedig yn y rhan berthnasol, yn seiliedig ar ble yn y DU y cawsant eu cymwysterau neu eu profiad, neu'r math o gymwysterau sydd ganddynt (oni bai bod modd cyfiawnhau'r olaf).

Cymal dehongli yw cymal 27. Mae hefyd yn delio ag achosion lle mae dau neu fwy o lwybrau i ymarfer ac nid oes yr un ohonynt yn cydymffurfio â chymal 24 (proses sy'n galluogi preswylydd o'r DU i geisio cydnabyddiaeth o'i gymwysterau neu brofiad proffesiynol). At ddibenion egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig, mae preswylydd cymwysedig yn y DU yn cael budd o'r llwybr lleiaf heriol.

*Enghraifft ddamcaniaethol 11:* Llwybrau amgen at gymhwyster

Pe caniateir i'r rhai â chymhwyster A ymarfer y proffesiwn heb asesiad unigol pellach a bod y rhai â chymhwyster B yn cael ymarfer y proffesiwn dim ond ar ôl asesiad unigol pellach, byddai preswylydd cymwysedig o'r DU yn cael ei gydnabod yn awtomatig heb orfod ymgymryd â›r asesiad unigol pellach

# Y prif faterion

Mae Rhan 3 o'r Bil yn cyflwyno system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol ar draws marchnad fewnol y DU. Bydd hyn yn caniatáu i weithwyr proffesiynol sy'n gymwys yn un o bedair gwlad y DU gael mynediad i'r un proffesiwn mewn gwlad wahanol heb orfod gwneud cais (yn amodol ar eithriadau).

Mae'r rhan hon o'r Bil yn ymwneud â mynediad at broffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y gyfraith. Er enghraifft, mae mynediad at broffesiynau neu alwedigaethau penodol yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i rywun feddu ar gymwysterau proffesiynol penodol (megis gradd, diploma neu ddyfarniad). Ymhlith yr enghreifftiau mae gradd Baglor mewn Meddygaeth neu Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg. Efallai y bydd rhai proffesiynau hefyd yn gosod gofynion i rywun feddu ar gymwysterau mwy cyffredinol i lefel benodol (megis nifer benodol o gymwysterau TGAU neu Safon Uwch), neu i rywun fod wedi cael mathau penodol o brofiad.

Noda'r **Nodiadau Esboniadol** nad oes system drosfwaol na dull cyson ar hyn o bryd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng gwledydd y DU. Mae'n dadlau, os bydd gwahaniaethau proffesiynol yn cynyddu ledled y DU, y gallai gweithwyr proffesiynol wynebu mwy o gyfyngiadau ar eu gallu i ymarfer ledled y DU nag sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, yn ei **hymateb i**'r Papur Gwyn, dadleuodd Llywodraeth Cymru fod hwn yn faes lle mae gwahaniaethau eisoes yn bodoli a nododd fod gan pob un o wledydd y DU ei rheolyddion ei hun sydd eisoes yn goruchwylio meysydd megis

gofal cymdeithasol ac addysg.

I ddangos ei phryder am y cynigion yn y Papur Gwyn, darparodd Llywodraeth Cymru astudiaeth achos ar gymwysterau athrawon. Nododd fod y llwybrau at gyflawni Statws Athro Cymwysedig ("SAC") yng Nghymru a Lloegr wedi amrywio'n sylweddol rhwng y ddwy wlad dros sawl blwyddyn. Nododd fod y gofynion mynediad i'r proffesiwn addysgu yn is yn Lloegr a bod Lloegr yn symud tuag at faes proffesiynol heb ei reoleiddio. Dadleuodd y gallai'r senario waethaf o ran y system cydnabyddiaeth gilyddol arfaethedig olygu gostyngiad sylweddol yn safonau'r gweithlu addysgu yng Nghymru. Roedd hefyd yn bryderus y gallai darpar athrawon dan hyfforddiant gael eu denu gan lwybrau cost is a safonau is i addysgu yn Lloegr a cheisio ymgymryd â›u hyfforddiant yno cyn dychwelyd i addysgu yng Nghymru, gan danseilio'r gofynion a osodwyd i ennill SAC yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn yn cadarnhau bod athrawon sydd wedi'u hyfforddi ac wedi ennill SAC yn Lloegr yn cael eu cydnabod yn awtomatig ar hyn o bryd fel rhai sy'n gallu addysgu yng Nghymru.

O dan yr egwyddor gyffredinol yng nghymal 22.2 o'r Bil, byddai unigolyn sy'n gymwys mewn perthynas â phroffesiwn yn Lloegr yn cael ei drin fel pe bai'n gymwys mewn perthynas â›r un proffesiwn yng Nghymru.

Yng nghyd-destun astudiaeth achos Llywodraeth Cymru uchod (ac ar y sail bod y polisi presennol o gydnabod SAC yn awtomatig wedi'i wrthdroi yng Nghymru): ymddengys mai effaith y Bil yw y gallai'r rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i unigolyn o'r tu allan i Gymru gydymffurfio â›r gofynion cymwysterau a oedd yn bodoli yng Nghymru cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Fodd bynnag, pe bai'r rheoleiddiwr yn cyflwyno gofynion newydd wedi hynny neu'n diwygio'r gofynion presennol ar gyfer cymwysterau, ar gyfer darpar athrawon neu athrawon presennol yng Nghymru, byddai'r egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig yn gymwys. Er y gellid gorfodi'r gofynion newydd yn ymwneud â chymwysterau ar athrawon yng Nghymru, ni ellid eu gorfodi ar athrawon o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i addysgu yng Nghymru.

Yn **ei ddatganiad** ar y Bil nododd Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru:

> Mae Rhan 3 yn ceisio gosod yr un dull o ymdrin â chymwysterau proffesiynol, er, o ddatgan fy muddiant fel cyfreithiwr, fy mod i'n sylweddoli bod y proffesiwn cyfreithiol ei hun wedi'i eithrio. Ond, fel cyfreithiwr eto, gallaf dynnu sylw hefyd at y ffaith bod hwn yn ddarn cymhleth o ddrafftio a fydd hefyd yn rhoi llawenydd i gyfreithwyr ledled y wlad. Nid ydym yn glir eto a fyddai hyn mewn gwirionedd yn

> ei gwneud yn amhosibl atal athrawon o rannau eraill o'r DU nad oes ganddynt y cymwysterau a'r profiad sy'n ofynnol gan ein deddfwriaeth ni rhag cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i addysgu yng Nghymru, ond gallai glymu'r cyngor hwnnw yn glymau cyfreithiol am flynyddoedd i ddod.

### 4.1. Datgymhwyso cydnabyddiaeth awtomatig

Lle na ellir ystyried bod dau gymhwyster proffesiynol o wahanol rannau o'r DU yn gyfwerth, mae'r darn canlynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at y ffaith y gellid defnyddio'r broses amgen ar gyfer cydnabod:

> [...] the Bill will enable legislation to disapply the principle of automatic recognition for the profession in question. Administrations will then be able to provide for a pathway which allows differences in the requirements to be considered and a decision to be taken as to whether, and on what basis, a person should be allowed access to the profession in another part of the country.

Mae sefydlu cyfundrefn, ei chyflwyno ac yna ei gweithredu gan reoleiddiwr neu weinyddiaeth yn debygol o olygu bod angen buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau.

## 5. Cyngor Annibynnol a Monitro Marchnad Fewnol y DU

Mae Rhan 4 o'r Bil yn cynnwys darpariaeth i roi i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd set o swyddogaethau adrodd, cynghori a monitro ar weithrediad y farchnad fewnol a phwerau casglu gwybodaeth i gefnogi'r swyddogaethau hyn.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil, mae Cymal 29 (**a gyflwynwyd** yn y **Cyfnod Adrodd**) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd roi sylw i'r amcan o gefnogi, drwy gymhwyso arbenigedd economaidd a thechnegol arall, weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU.

### 5.1. Monitro ac Adrodd

Rhoddir swyddogaethau adrodd, cynghori a monitro newydd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas â gweithrediad y farchnad fewnol. Amlinellir y rhain yng nghymalau 31-37 o'r Bil.

***Rhaid*** i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad y farchnad fewnol ac effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad fewnol, o leiaf unwaith bob 12 mis. O fewn pob cyfnod 5 mlynedd, rhaid i'r Awdurdod baratoi adroddiad ar effeithiolrwydd darpariaethau'r farchnad fewnol yn Rhannau 1-3 o'r Bil ac effaith gweithrediad y darpariaethau hynny ar ddatblygiad y farchnad fewnol yn y DU. Bydd copïau o'r adroddiadau hyn yn cael eu gosod gerbron pob un o bedair deddfwrfa'r DU.

***Gall*** yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd baratoi a chyhoeddi adroddiadau eraill, fel y nodir yng nghymalau 31-34. Gellir gofyn am adroddiad ar effaith darpariaethau rheoliadol newydd ar weithrediad y farchnad fewnol cyn iddynt ddod i rym, effaith darpariaethau sydd eisoes wedi'u pasio neu eu gwneud yn rhan o'r gyfraith neu ddarpariaethau y gellir ystyried eu bod yn cael effeithiau niweidiol ar farchnad y DU. Gall yr Awdurdod benderfynu adrodd o'i wirfodd, neu os bydd un o'r gweinyddiaethau datganoledig neu Lywodraeth y DU yn gofyn am adroddiad. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod wrthod cais a wneir am adroddiad, cyhyd â›i fod yn hysbysu'r awdurdod sy'n gofyn am yr adroddiad am ei resymau dros wneud hynny, ac yn cyhoeddi hysbysiad mewn modd y mae'n ei ystyried sy'n briodol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi cyngor a gwybodaeth gyffredinol ynghylch sut y bydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn, gan gynnwys pa ffactorau y gall eu hystyried wrth benderfynu a ddylid arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ai peidio.

## 5.2. Pwerau casglu gwybodaeth

Rhoddir pwerau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gasglu gwybodaeth hefyd i gefnogi ei swyddogaethau monitro, cynghori ac adrodd. Gall yr Awdurdod ofyn am unrhyw ddogfennaeth at y dibenion hyn, a chaiff ofyn i berson sy'n cynnal busnes ddarparu amcangyfrifon, rhagolygon a ffurflenni neu wybodaeth arall fel y nodir yn ei hysbysiad gwybodaeth.

Darperir pwerau gorfodi i'r Awdurdod mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio, a gall osod cosbau nad ydynt yn fwy na £30,000 ar gyfer cosb benodedig, neu £15,000 os yw'r swm yn cael ei gyfrifo ar sail cyfradd ddyddiol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â›r cosbau a roddir o dan y Rhan hon, ond ni all y cosbau fod yn fwy na'r symiau a nodir uchod. Ni fydd yr Awdurdod yn gallu rhoi cosb ariannol i Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru na Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

# Y prif faterion

## 5.3. Llywodraethu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Yn ei **Phapur Gwyn ar y Farchnad Fewnol,** ymrwymodd Llywodraeth y DU i roi rôl i gorff annibynnol newydd o ran goruchwylio gweithrediad marchnad fewnol y DU. Mae'r Bil yn rhoi'r swyddogaethau hyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn 2013 gan y **Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio** ("Deddf Menter 2013") ac mae'n adran anweinidogol annibynnol sy'n cyflawni ei swyddogaethau ar ran y Goron. Mae ei waith yn cael ei arwain gan Brif Weithredwr a'i oruchwylio gan Fwrdd ac mae'n gweithio i hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr, yn y DU a'r tu allan iddi. Mae ganddo nifer o gyfrifoldebau gan gynnwys diogelu defnyddwyr rhag arferion masnachu annheg, ymchwilio i drefniadau uno rhwng sefydliadau er mwyn atal lleihad mewn cystadleuaeth a chymryd camau gorfodi mewn perthynas ag arferion gwrth-gystadleuol gan fusnesau ac unigolion.

Mae'r **Nodiadau Esboniadol i'r Bil (600KB PDF)** yn cadarnhau y bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol' ('Office for the Internal Market' neu "OIM") newydd yn cael ei sefydlu o fewn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Fodd bynnag, **fel y cyflwynwyd y Bil** nid oedd y teitl "Office for the Internal Market" wedi'i gynnwys yn benodol ar ei wyneb. Roedd **gwelliant gan Lywodraeth y DU,** y cytunwyd arno yn y **Cyfnod Adrodd,** yn diwygio'r drafft gwreiddiol drwy ddarparu'n benodol y caiff yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddirprwyo ei swyddogaethau o dan y Ddeddf i dasglu yn Swyddfa'r Farchnad Fewnol ("Tasglu OIM").

Cyflwynwyd trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer yr OIM hefyd yn y **Cyfnod Adrodd** drwy gyfrwng **gwelliant Llywodraeth y DU** a fewnosododd Atodlen 3 yn y Bil. Byddai Atodlen 3 yn diwygio Deddf Menter 2013 drwy gyflwyno darpariaethau yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi 'Cadeirydd Panel OIM' ac unigolion eraill a benodwyd i fod yn aelodau o banel Swyddfa'r Farchnad Fewnol ("y Panel OIM").

Cyn gwneud penodiadau o'r fath, fodd bynnag, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig. Mewn **papur briffio ar farchnad fewnol y DU**, awgrymodd yr Athro Michael Keating, mewn tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Cyllid a'r Cyfansoddiad Senedd yr Alban, y gellid bod wedi disgwyl y byddai corff cynghori fel yr OIM yn cael ei benodi ar y cyd gan y DU a'r llywodraethau datganoledig. Fodd bynnag, nododd **y Pwyllgor** nad yw'r gofyniad newydd i ymgynghori yn mynd mor bell â 'phenodi ar y cyd', er bod sawl

tyst i'r Pwyllgor wedi argymell hynny.

At ddibenion cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o dan y Bil, caiff Cadeirydd y Panel OIM (a fydd hefyd yn cael ei benodi i fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) sefydlu Tasgluoedd OIM. Byddai pob Tasglu yn cynnwys o leiaf dri aelod o'r panel OIM a rhaid iddynt weithredu'n annibynnol ar fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth arfer eu swyddogaethau.

**Noda** Llywodraeth y DU fod yr OIM wedi'i ddewis i oruchwylio marchnad fewnol y DU ar ôl asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac ystyried ystod o opsiynau posibl ar gyfer ei gyflwyno. Disgwylir iddo fod yn gwbl weithredol erbyn diwedd 2021.

Ni roddodd y Papur Gwyn lawer o fanylion ynghylch pa ddulliau llywodraethu a sefydliadol a fyddai'n cael eu sefydlu i oruchwylio'r farchnad fewnol yn y DU. Er iddo gadarnhau y byddai esblygiad a siâp cyffredinol marchnad fewnol y DU yn cael eu goruchwylio gan Senedd y DU, nid oedd sôn am rôl y deddfwrfeydd datganoledig yn y broses hon.

Mae i ba raddau y gall y gwledydd datganoledig gyfrannu at siâp Marchnad Fewnol y DU neu ddylanwadu arno yn parhau i fod yn anhysbys.

O ran dull llywodraethu trosfwaol i oruchwylio marchnad fewnol y DU, awgrymodd y Papur Gwyn ystod o opsiynau gan gynnwys corff annibynnol â chysylltiadau agos â Senedd y DU a deddfwrfeydd datganoledig; pwyllgor arbenigol; neu gorff sy'n uniongyrchol atebol i Senedd y DU.

Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, **dywedodd Llywodraeth Cymru** fod yr adran yn y Papur Gwyn a oedd yn canolbwyntio ar lywodraethu a monitro annibynnol yn brin o fanylion, yn benodol o ran swyddogaethau, cyfansoddiad ac atebolrwydd corff annibynnol. Dadleuodd fod cyfeiriadau at rôl oruchwylio bosibl ar gyfer Senedd y DU yn awgrymu na fyddai rôl i'r deddfwrfeydd datganoledig. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn gwbl annerbyniol gan y byddai unrhyw system newydd yn effeithio ar y DU gyfan.

**Nododd** y Cwnsler Cyffredinol y gallai Llywodraeth Cymru gytuno i'r cynigion yn Rhan 4 o'r Bil yn amodol ar newidiadau i lywodraethu'r Awdurdod Cystadleuaeth a

Marchnadoedd:

> Mae'r swyddogaethau a gynigir ar gyfer y swyddfa hon yn rhai y gallem eu cymeradwyo'n gyffredinol, ond mae'n gwbl amhriodol mai adran anweinidogol o Lywodraeth y DU, y mae ei phrif swyddogaethau'n ymwneud â materion a gadwyd yn *ôl* yn llwyr, sy'n cael y swyddogaeth hon heb ddiwygio ei threfniadau llywodraethu'n helaeth.

## 5.4. Swyddogaethau Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Amlinellir prif swyddogaethau Swyddfa'r Farchnad Fewnol o dan y pennawd 'Darpariaethau'r Bil' uchod. Un o'i swyddogaethau canolog yw monitro ac adrodd ar weithrediad y farchnad fewnol.

Noda'r Bil os yw llywodraeth o'r farn bod rheoliad a basiwyd gan lywodraeth arall yn cael effaith niweidiol wirioneddol neu ragweledig ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU ('actual or anticipated detrimental impact on the functioning of the UK Internal Market'), mae Rhan 4 o'r Bil yn darparu y gall Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ofyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddarparu adroddiad ar effeithiau rheoliad o'r fath. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod wrthod cais o'r fath. Os bydd yr Awdurdod yn llunio adroddiad, yna mae'n rhaid iddo drefnu bod copi yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru o fewn 6 mis ar ôl adrodd. Os gosodir adroddiad o'r fath gerbron Senedd Cymru, mae is-gymalau newydd (y cytunwyd arnynt yn y **Cyfnod Adrodd** a'u mewnosod o dan Gymal 35) yn darparu bod yn rhaid i'r 'Awdurdod Cyfrifol' wneud datganiad i Senedd y DU. Yng nghyd-destun Cymru, mae hyn yn golygu (yn dibynnu p'un a yw'r ddarpariaeth reoleiddio o fewn 'cymhwysedd datganoledig Cymru') naill ai mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad i Senedd Cymru, neu mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad i Senedd y DU.

O ystyried nad yw adroddiadau'r Awdurdod o natur rwymol, nid yw'n eglur pa effaith y bwriedir iddynt ei chael yn ymarferol. Nid oes dyletswydd statudol ar ddeddfwrfa na llywodraeth i gymryd camau mewn ymateb i adroddiadau o'r fath. At hynny, mae is-gymal 28(7) (**a gyflwynwyd** gan Lywodraeth y DU ac y cytunwyd arno yn y **Cyfnod Adrodd)** yn rhoi 'braint absoliwt' – at ddibenion y gyfraith sy'n ymwneud â difenwi – i unrhyw gyngor a roddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, neu adroddiad a wneir ganddo, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bil.

Mae **gwybodaeth esboniadol yr Institute for Government** yn dod i'r casgliad bod gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol bwerau cyfyngedig iawn ac mewn sawl achos gall ddewis peidio ag arfer y pwerau hynny.

## 5.5. Cysylltiadau rhynglywodraethol - datrys anghydfodau

Er i'r Papur Gwyn nodi y byddai angen gwella dulliau datrys anghydfodau rhynglywodraethol at ddibenion marchnad fewnol y DU; ni nododd yn benodol sut y byddai hyn yn cael ei wneud. Ni ddywedodd ychwaith pwy fyddai'n gyfrifol yn y pen draw am ddatrys anghydfodau a sut y byddai cydraddoldeb yn cael ei gyflawni rhwng y pedair llywodraeth o fewn y dulliau hyn.

Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer dulliau datrys anghydfodau penodol mewn perthynas â marchnad fewnol y DU.

Mae ymateb Llywodraeth y DU i ymgynghoriad y Papur Gwyn yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu amlinellu dull cydsyniol ac mai bwriad adroddiadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yw cefnogi cydweithredu a chydlynu rhynglywodraethol.

Lle mae anghydfod, noda'r **datganiad i'r wasg sy'n cyd-fynd â›r Bil** mai mater i'r priod ddeddfwrfeydd gyda chefnogaeth eu gweinyddiaethau a'u prosesau rhynglywodraethol fyddai penderfynu pa gamau i'w cymryd mewn ymateb i hynny, gan leihau'r angen am achosion llys. Er nad yw'r datganiad hwn yn egluro sut y bydd anghydfodau'n cael eu datrys na pha brosesau rhynglywodraethol fydd yn gymwys, mae'n ymddangos ei fod yn rhagweld rôl i'r llysoedd.

Yn y **Cyfnod Pwyllgor,** dywedodd Paul Scully, Is-Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol:

> "Ultimately, yes, the courts are there as a last resort, but if we have the inter- governmental relationships and build on those, as trusted partners, we will not have to resort to that."

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** sy'n cyd-fynd â›r Bil yn cadarnhau y bydd unrhyw ddulliau datrys anghydfod yn seiliedig ar drefniadau presennol ac ni ragwelir y bydd angen adnoddau ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, nododd hefyd y byddai trefniadau rhynglywodraethol penodol yn cael eu datblygu i ddatrys anghytundebau ac anghydfodau posibl ynghylch rheoliadau. Yn hynny o beth, mae'r Athro Nicola McEwen **yn credu** y bydd yn anoddach fyth dod i gytundeb o ran yr adolygiad parhaus o gysylltiadau rhynglywodraethol oherwydd yn lle adeiladu strwythurau i wneud i lywodraethau weithio gyda'i gilydd mae Bil y Farchnad Fewnol yn gwneud popeth ond hepgor llywodraethau datganoledig o'r broses.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cadarnhau na fydd trefniadau

rhynglywodraethol yn disodli her bosibl yn y llys. Fodd bynnag, er bod hyn yn cyfeirio at allu busnesau ac unigolion i orfodi hawliau sy'n gysylltiedig â›r Bil yn y llys, nid yw'n ymddangos bod y Bil yn creu unrhyw hawliau na dulliau gwneud iawn y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn bodoli drwy'r sianelau adolygiad barnwrol presennol. Mae hon yn broses a all fod yn ddrud i unigolion a busnesau.

### 5.6. Rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol mewn anghydfodau

Mae ymateb y Llywodraeth yn nodi na fydd ehangu cylch gwaith yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gynnwys swyddogaethau marchnad fewnol y DU yn golygu mai ef fydd gorfodwr yr egwyddorion a nodir yn y Bil.

Awgryma darpariaethau'r Bil y bydd Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cyflawni swyddogaeth wahanol i'r un a weithredir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd yng nghyd-destun Marchnad Sengl yr UE. Er y gall y Comisiwn Ewropeaidd ddwyn achos yn erbyn Aelod-wladwriaeth am fethu â chydymffurfio â rheolau'r farchnad fewnol a chyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop, mae'n ymddangos y bydd rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol wrth ddatrys anghydfod yn gyfyngedig i ddarparu adroddiadau i'r partïon perthnasol sy'n rhan o'r anghydfod i'w cynorthwyo.

Yn ôl **gwybodaeth esboniadol** yr Institute for Government am y Bil, nid yw'n glir sut y bydd anghydfodau ynghylch gweithrediad y farchnad fewnol yn cael eu rheoli.

# 6. Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Mae Rhan 5 o'r Bil yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â **Phrotocol Gogledd Iwerddon/Iwerddon** ("The Northern Ireland Protocol"), y cytunwyd arno ym mis Hydref 2019 fel rhan o'r Cytundeb Ymadael. Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn nodi trefniadau ar ôl Brexit ar gyfer y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, sef yr unig ffin ar y tir rhwng y DU a'r UE. Daw i rym ar 1 Ionawr 2021. Cytunodd y DU a'r UE yn eu rhaglith nad oedd unrhyw beth ynddo sy'n atal y DU rhag:

> ensuring unfettered market access for goods moving from Northern Ireland to the rest of the UK's internal market.

Mae'r rhaglith hefyd yn nodi sut y mae'n parchu swyddogaethau hanfodol y Wladwriaeth ac uniondeb tiriogaethol y DU. Mae Erthygl 6 o Brotocol Gogledd Iwerddon, sy'n dwyn y teitl 'Protection of the UK internal market,' yn ymrwymo

Cyd-bwyllgor y DU-UE i adolygu Erthygl 6 yn barhaus ac i fabwysiadu argymhellion gyda'r bwriad o osgoi rheolaethau ym mhorthladdoedd a meysydd awyr Gogledd Iwerddon.

## 6.1. Pwerau i wneud rheoliadau - Cymalau 44, 45 a 47

Darperir pwerau eang i wneud rheoliadau i Weinidogion y Goron a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â darpariaethau a gynhwysir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon (cymalau 44 a 45). Yn arwyddocaol, mae'r darpariaethau yn y Bil hwn yn darparu'n benodol y gall pwerau gwneud rheoliadau o'r fath olygu nad yw hawliau, pwerau a rhwymedigaethau a fyddai'n gymwys fel arall o dan gyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol yn cael eu cydnabod na'u gorfodi.

Mae Cymal 47 yn darparu'n benodol bod y pwerau sydd ar gael i Weinidogion o dan gymalau 44 a 45 ac unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt, i'w hystyried yn effeithiol er gwaethaf unrhyw anghydnawsedd neu anghysondeb â chyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, unrhyw ddarpariaethau eraill yng Nghytundeb Ymadael y DU o'r UE, neu unrhyw ddeddfwriaeth arall a bennir, gan gynnwys cyfraith yr UE, cyfraith ryngwladol ac unrhyw orchymyn, dyfarniad neu benderfyniad unrhyw lys neu dribiwnlys (cymal 47(8)).

Fodd bynnag, mae cymal 47(8) newydd, fel y'i diwygiwyd, yn golygu nad yw'r hawliau a ddarperir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn") wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn o gyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol. Yn y DU, ymgorfforwyd y Confensiwn mewn deddfwriaeth ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Mae cymal 47(2)(a) newydd yn datgymhwyso adran 6(1) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wrth wneud rheoliadau o dan gymal 44(1) ar gymhwyso'r gweithdrefnau ymadael i nwyddau, neu ddisgrifiadau o nwyddau, sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Cymal 45(1) ar ddarpariaethau cymorth gwladwriaethol Protocol Gogledd Iwerddon (Erthygl 10). Mae adran 6(1) yn ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn. Effaith hyn yw, er nad yw hawliau'r Confensiwn bellach yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o 'gyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol,' ni fydd gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion sy'n gwneud rheoliadau o dan y pwerau yng nghymalau 44(1) a 45(1), ddyletswydd bellach i weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Mae'r cymal 47(3) newydd yn darparu bod rheoliadau o dan gymalau 44(1) a 45(1)

i gael eu trin fel deddfwriaeth sylfaenol at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae adran 21(1) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn diffinio deddfwriaeth sylfaenol. Nid yw'n cynnwys gorchymyn nac offeryn arall a wnaed o dan ddeddfwriaeth sylfaenol gan Weinidogion Cymru.

Mae'r cymal 47(4) newydd yn darparu na chaiff yr un llys na thribiwnlys gynnal unrhyw achos yn ymwneud â chwestiynu dilysrwydd neu gyfreithlondeb rheoliadau o dan gymalau 44(1) neu 45(1) ac eithrio achosion yn ymwneud â hawliad neu gymhwysiad perthnasol. Mewn achosion o'r fath, mae awdurdodaeth a phwerau llys neu dribiwnlys yn ddarostyngedig i'r cymalau 'er gwaethaf' y cyfeirir atynt uchod.

Mae'r cymal 47(5) newydd yn darparu na chaniateir ymestyn y terfyn amser safonol i wneud cais am adolygiad barnwrol o reoliadau o dan gymalau 44 a 45 mewn unrhyw amgylchiadau.

Mae Erthygl 13(2) o Brotocol Gogledd Iwerddon yn gosod gofyniad penodol i weithredu a chymhwyso ei ddarpariaethau yn unol â chyfraith achos berthnasol Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, lle maent yn ymwneud â chyfraith yr UE. O dan adran 47(8)(g) o'r Bil, gellir anghymhwyso'r ddyletswydd hon.

Mae Cymal 44 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidog y Goron mewn perthynas â›r gweithdrefnau neu ffurfioldebau eraill sy'n gymwys i nwyddau, wrth eu symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, p'un a yw'r gweithdrefnau hyn wedi'u nodi ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon neu beidio. Gall y pwerau gwneud rheoliadau anghymhwyso neu addasu cymhwyso gweithdrefnau o'r fath, neu gallant nodi neu ailddatgan a yw gweithdrefn yn gymwys ai peidio.

Rhoddir pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag Erthygl 10 o Brotocol Gogledd Iwerddon ynghylch cymorth gwladwriaethol. Mae cymal 45 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol anghymhwyso neu addasu effaith Erthygl 10, a chaiff wneud darpariaeth ynghylch dehongli Erthygl 10. Mae erthygl 10 yn dibynnu ar gydymffurfiaeth y DU â rhwymedigaethau cyfraith ryngwladol a ddarperir yn **Atodiad 2 i Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.** O ganlyniad, mae darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddatgymhwyso effaith Erthygl 10 yn awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol i dorri rhwymedigaethau cyfraith ryngwladol.

Mae enghreifftiau o'r math o ddarpariaethau y gellir darparu ar eu cyfer mewn Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau i sicrhau na ddylid dehongli Erthygl 10 heblaw yn unol â rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac nid yn unol

ag unrhyw gyfraith achos yn y Llys Ewropeaidd neu ddeddf ddeddfwriaethol yr UE. Enghraifft arall yw na fydd gan bobl hawl i weithredu o unrhyw fath mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol ac eithrio yn unol â›r rheoliadau. Mae darpariaethau o'r fath yn codi cwestiynau am yr effaith ar hawliau dinasyddion, ac yn mynd yn groes i adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018) sy'n rhoi effaith uniongyrchol i'r gyfraith sy'n deillio o'r Cytundeb Ymadael. Wedi hynny, cafodd adran 7A o Ddeddf 2018 ei haddasu, gan dynnu sylw at effaith y darpariaethau a wneir yn y Bil mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon. Effaith gyffredinol y darpariaethau hyn yw y gellir yn y pen draw ddatgymhwyso'n gyfan gwbl y darpariaethau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Cytundeb Ymadael.

## 6.2. Cydsyniad seneddol ar gyfer Cymalau 44, 45 a 47

Diwygiwyd y Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Senedd y DU ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Bil. Mae'r Bil bellach yn ei gwneud yn ofynnol fel a ganlyn:

1. Rhaid i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol gael eu gosod gerbron y ddau Dŷ a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddynt.
2. Yn achos rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol:

- Rhaid iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael eu gwneud; a
- Byddant yn peidio â bod yn effeithiol o fewn 40 o ddiwrnodau oni bai bod y ddau Dŷ yn cymeradwyo'r rheoliadau trwy benderfyniad.

Mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau yng nghymalau 44 a 45 o fewn y chwe mis cyntaf, a ddisgrifir fel y 'cyfnod cychwynnol' ("*initial period*"), yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a ddisgrifir ym mhwynt bwled 2 uchod. Mae rheoliadau a wneir ar **ôl** y cyfnod cychwynnol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a ddisgrifir ym mhwynt bwled 1 uchod. Bydd y broses hon yn gymwys ar **ôl** y chwe mis cyntaf wedi i'r Bil ddod i rym.

Ar 17 Medi 2020, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau** ar ddefnyddio'r cymalau 'er gwaethaf'. Mae'n cadarnhau y gofynnir i Senedd y DU:

> support the use of the provisions in Clauses 42, 43 and 45 *[cymalau newydd 44, 45 a 47]* and any similar subsequent provisions, only in the

> case of, in our view, the EU being engaged in a material breach of its duties of good faith or other obligations, and thereby undermining the fundamental purpose of the Northern Ireland Protocol.

Darperir nifer o enghreifftiau cyffredinol i ddangos ymddygiad y gellid ei ystyried yn achos sylweddol o dorri dyletswyddau.

### 6.3. Swyddogaethau i'w harfer gan Weinidogion Cymru

Mae darpariaethau eraill yn Rhan 5 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw arbennig i nifer o faterion wrth ddefnyddio unrhyw bwerau sy'n gysylltiedig â gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon neu symud nwyddau yn y DU (cymal 42). Mae materion o'r fath yn cynnwys:

- cynnal lle annatod Gogledd Iwerddon ym marchnad fewnol y DU,
- parchu lle Gogledd Iwerddon fel rhan o diriogaeth tollau'r DU,
- a'r angen i hwyluso llif masnach rhydd rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, gyda'r nod o symleiddio masnach a chynnal a chryfhau uniondeb a gweithrediad y farchnad fewnol.

Nodir hefyd yn **Nodiadau Esboniadol** Llywodraeth y DU bod y darpariaethau yn y rhan hon yn cefnogi cyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu mynediad dilyffethair i nwyddau Gogledd Iwerddon sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Mae awdurdod priodol yn cael ei atal rhag arfer unrhyw swyddogaeth mewn ffordd a fyddai'n arwain at ddefnyddio unrhyw wiriadau, rheolaethau neu brosesau gweinyddol newydd ar nwyddau cymwys wrth iddynt symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Mae'r Bil hefyd yn atal gwiriadau, rheolaethau neu brosesau presennol rhag cael eu defnyddio am y tro cyntaf neu at ddiben newydd. Mae eithriadau i'r ddwy senario ac ychwanegwyd eithriadau ychwanegol at y Bil drwy gyfrwng gwelliannau. Mae'r eithriadau hyn yn caniatáu ar gyfer swyddogaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer TAW neu'r doll gartref o ganlyniad i Brotocol Gogledd Iwerddon ac i fynd i'r afael â bygythiad i fioddiogelwch ym Mhrydain Fawr.

# Y prif faterion

Mae darpariaethau'r Bil ar Brotocol Gogledd Iwerddon yn cyflwyno nifer o faterion allweddol i Gymru. Yn gyntaf o ran eu heffaith ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ac yn ail, o ran cydymffurfiaeth Cymru â›i rhwymedigaethau rhyngwladol, a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny.

## 6.4. Yr effaith ar y berthynas rhwng y DU a'r UE

### 6.4.a Trafodaethau ynghylch y berthynas yn y dyfodol

On Ar 8 Medi, cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, Brandon Lewis, **wrth Dŷ'r Cyffredin** fod darpariaethau'r Bil mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon yn torri cyfraith ryngwladol oherwydd eu bod yn caniatáu i'r DU wyro oddi wrth ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael.

Mae'r UE wedi datgan yn glir bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn dibynnu ar weithredu'r Cytundeb Ymadael yn llawn a bod y ffaith bod y DU yn torri telerau Cytundeb yn peri risg i'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt. Ategwyd hyn gan **Šefčovič, Is-lywydd Comisiwn yr UE ac yn ddiweddarach gan Senedd Ewrop,** a nododd na fydd yn cadarnhau unrhyw gytundeb rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol os bydd y DU yn torri, neu'n bygwth torri, y Cytundeb Ymadael.

Mae'r ddogfen **cynllun gweithredu ymadael heb gytundeb Llywodraeth Cymru,** a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019, yn nodi 'niwed i enw da' ymadael heb gytundeb fel risg strategol gyda'r potensial i waethygu'r effaith bosibl a nodir yn y cynllun. Noda:

> Os bydd Ewrop a'r gymuned ryngwladol yn colli hyder yn y DU ac yn y ffordd y mae'n cael ei llywodraethu os ymadewir â›r UE yn ddisymwth heb gytundeb, gallai hynny achosi niwed yn syth, a niwed parhaus, i enw da'r DU yn rhyngwladol.

Ar 17 Medi, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod y risg o ymadael heb gytundeb yn parhau i fod yn "boenus o uchel."

### 6.4.b Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn)

**Mae'r UE wedi'i gwneud yn glir** fod cydweithrediad y DU-UE ar ddiogelwch yn y dyfodol yn amodol ar fod y DU yn parhau i arddel y Confensiwn. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU barhau i roi effaith i ddeddfwriaeth ddomestig gysylltiedig (gan gynnwys Deddf Hawliau Dynol 1998). Yn ôl **Mark Elliot, Athro Cyfraith Gyhoeddus ym Mhrifysgol Caergrawnt,** a chyn gynghorydd cyfreithiol i Bwyllgor y Cyfansoddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae'r Bil yn ceisio cyfyngu ar y graddau y bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gymwys. Mae **testun cyfreithiol drafft yr UE** yn rhybuddio y bydd yr UE yn atal ei gydweithrediad ar ddiogelwch os gwneir newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig y DU, ac na fydd y cydweithrediad hwnnw'n cael ei adfer oni bai bod y DU yn ailsefydlu'r trefniadau cyfredol.

Mae'r cydweithrediad ar ddiogelwch a ragwelir ac a amlinellwyd gan yr UE yn cynnwys cydweithredu i atal, canfod, ymchwilio ac erlyn troseddau. Mae hyn yn golygu cydweithrediad rhwng asiantaethau yn y DU, yr UE ac Aelod-wladwriaethau unigol yr UE. Mae hefyd yn cynnwys gweithredu i atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth. Mae'r cydweithrediad hwn yn gofyn am drosglwyddo data personol, na fydd yn digwydd dim ond pan fydd Comisiwn yr UE o'r farn bod y DU yn gallu diogelu data i lefel ddigonol. Ar 13 Mawrth 2020, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapurau** ynghylch penderfynu ar lefel ddigonol o ddiogelwch data, ac mae'n aros am benderfyniad gan yr UE.

Mae'r Confensiwn yn un o'r mesurau diogelwch yng **Nghytundeb Belffast (Dydd Gwener y Groglith).** Mae'r Cytundeb hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol nad yw penderfyniadau a deddfwriaeth yn torri egwyddorion y Confensiwn. Cafodd ymrwymiad i'r Confensiwn ei gynnwys hefyd yn **Natganiad Gwleidyddol** y DU-UE, y cytunwyd arno ym mis Hydref 2019 ar y cyd â›r Cytundeb Ymadael.

## 6.5. Gweithdrefn datrys anghydfodau y Cytundeb Ymadael

Mae **Canllawiau Llywodraeth y DU** sy'n egluro'r defnydd o ddarpariaethau sy'n ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon yn cyfeirio at y trefniadau ffurfiol priodol ar gyfer datrys anghydfodau ("appropriate formal dispute settlement mechanisms"). Ymddengys fod hyn yn gyfeiriad at weithdrefn datrys anghydfodau gyffredinol y Cytundeb Ymadael, a nodir yn Nheitl III, er bod trefniadau gorfodi mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon hefyd yn bosibl o dan Erthygl 12 y Cytundeb.

Mae'r weithdrefn gyffredinol yn cynnwys dyletswydd cydweithredu ar y DU a'r UE i ymdrechu bob amser i gydweithio ar ei ddehongli a'i gymhwyso (Erthygl 167). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i anghydfodau rhwng y DU a'r UE gael eu datrys drwy ei weithdrefn datrys anghydfodau ei hun ac mae'n atal y DU a'r UE rhag ceisio datrys eu hanghydfodau mewn unrhyw fodd arall. Nodir hyn mewn cymal cyfyngu (Erthygl 168).

Mae'r weithdrefn datrys anghydfodau yn dechrau gydag ymgynghori a chyfathrebu yng Nghyd-bwyllgor y DU-UE a gall ddwysáu i gymrodeddu. Rhaid i banel cymrodeddu wneud dyfarniad o fewn 12 mis o'i sefydlu, neu o fewn 6 mis ar gyfer achosion brys (Erthygl 173). Pan fydd anghydfod yn codi cwestiwn ynghylch dehongli cyfraith yr UE, rhaid i'r panel cymrodeddu ofyn am ddyfarniad gan Lys Cyfiawnder yr UE, sy'n rhwymol ar y panel cymrodeddu (Erthygl 174).

Yn ogystal â›r effaith ar y trafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol, mae **Comisiwn**

**yr UE wedi rhybuddio** na fydd yn swil o ddefnyddio trefniadau'r Cytundeb Ymadael a dulliau cyfreithiol i fynd i'r afael ag achosion o dorri rhwymedigaethau cyfreithiol y DU. Er bod y Cytundeb Ymadael yn darparu ar gyfer atal y Cytundeb, yn gyfan gwbl neu'n rhannol (ac eithrio darpariaethau sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion), ac ar gyfer cosbau ariannol, nid yw'n darparu ar gyfer terfynu'r cytundeb, na thynnu'n ôl ohono. Mae'r unig gyfeiriad at derfynu wedi'i gynnwys yn Erthygl 18 o Brotocol Gogledd Iwerddon, na fyddai ei ddarpariaethau'n gymwys pe bai pobl Gogledd Iwerddon yn atal eu cydsyniad democrataidd.

Gall y DU a'r UE ill dau ymddangos gerbron fforymau datrys anghydfodau rhyngwladol y tu allan i'r weithdrefn datrys anghydfodau hon, ond mae hyn yn cyflwyno heriau pellach. Y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod pontio, bydd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod ag awdurdodaeth dros rai rhannau o'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys Protocol Gogledd Iwerddon, cyhyd â›u bod yn parhau mewn grym, ond gellid defnyddio darpariaethau'r Bil i negyddu'r rôl hon yn y ffyrdd a nodir uchod. Bydd rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn meysydd eraill yn ymwneud â›r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau. Roedd **testunau cyfreithiol drafft (PDF, 1.32MB) y DU a'r UE** yn cynnwys darpariaeth ar ddatrys setlo anghydfod.

**Lansio achos tor rheolau yn erbyn y DU**

Cynhaliodd Cydbwyllgor y DU-UE gyfarfod eithriadol ar 10 Medi ar ôl cyflwyno'r Bil. Yn y cyfarfod, **gofynnodd yr UE** am i rai darpariaethau penodol gael eu tynnu o'r Bil erbyn diwedd mis Medi. Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor eto ar 28 Medi fel rhan o'i amserlen reolaidd, ac wedi hynny, **dywedodd Michael Gove,** Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn y DU, na fyddai'r mesurau yn cael eu tynnu'n ôl.

Ar ôl i ddyddiad cau'r UE, ar 1 Hydref, fynd heibio lansiodd Comisiwn yr UE achos o dor rheolau yn erbyn y DU. Mewn **datganiad, dywedodd Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Ursula Von Der Leyen,** fod y Bil yn ei hanfod yn gyfystyr â thorri'r rhwymedigaeth 'ewyllys da' yn Erthygl 5 o'r Cytundeb Ymadael. Anfonodd yr UE hysbysiad ffurfiol o dor rheolau i Lywodraeth y DU, a rhoddodd fis iddi ymateb.

## 6.6. Cydymffurfiaeth Cymru â›i rhwymedigaethau rhyngwladol, a gweithredu'r rhwymedigaethau hynny

**Protocol Cymru a Gogledd Iwerddon**

O dan adran 22 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael 2020,

rhoddwyd pwerau gwneud rheoliadau eang i Lywodraeth Cymru i weithredu Protocol Gogledd Iwerddon, o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Effaith Cymal 40 o'r Bil hwn yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i nifer o faterion wrth arfer swyddogaethau at ddibenion gweithredu, neu ddelio â materion y tu allan i, neu sy'n gysylltiedig â, Phrotocol Gogledd Iwerddon neu symud nwyddau o fewn y DU.

Yn ei ddatganiad ar y Bil ar 15 Medi, daeth y Cwnsler Cyffredinol i'r casgliad fod darpariaethau'r Bil ynglŷn â Phrotocol Gogledd Iwerddon yn "gwbl wrthun" (paragraff 363) ac y:

> Bydd unrhyw un sy'n credu ym mhwysigrwydd rheolaeth y gyfraith, a phwysigrwydd cadw at gytundebau cyfreithiol yr ydych wedi ymrwymo iddynt yn rhwydd, hyd yn oed yn syml i sicrhau y bydd pleidiau eraill yn y dyfodol yn barod i wneud cytundebau â chi, yn arswydo y gallai Llywodraeth gynnig pwerau gweinidogol sy'n diystyru cyfraith ddomestig a chytundebau rhyngwladol mewn modd mor uniongyrchol.
>
> Mae'r darpariaethau yn y Rhan hon hefyd yn gwaethygu bygythiad posibl i borthladdoedd Cymru drwy gymell trefniadau cludo nwyddau o ynys Iwerddon i ddefnyddio llwybrau fferi o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr.

Yn ôl **Llywodraeth Cymru**, mae traean o'r traffig presennol rhwng Caergybi a Dulyn yn teithio i neu'n tarddu o Ogledd Iwerddon. Nodwyd goblygiadau Protocol Gogledd Iwerddon i fasnach allanol Cymru gan **Arsyllfa Polisi Masnach y DU** mewn ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

### Setliad datganoli Cymru a rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae Llywodraeth a Senedd Cymru yn gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Nid yw'n eglur a fydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion a Senedd Cymru weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â›r Cytundeb Ymadael, ac felly â chyfraith ryngwladol. Bydd llawer yn dibynnu ar gwmpas unrhyw reoliadau a wneir o dan gymalau 42 a 43 - rheoliadau a allai fod yn effeithiol er gwaethaf unrhyw gyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol y gallent fod yn anghydnaws â hi, fel y nodir yng nghymal 45.

Mae setliad datganoli Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gadw at rwymedigaethau rhyngwladol yn y ffyrdd a ganlyn:

### Cydnawsedd camau gweithredu Gweinidogion Cymru

Mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru, o dan adran 82 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gymryd camau i roi effaith i rwymedigaeth ryngwladol. I'r gwrthwyneb, gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i beidio â chymryd cam arfaethedig, pe bai'n anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddirymu is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru os ystyrir ei bod yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, neu er budd amddiffyn neu ddiogelwch gwladol. Hyd yma, nid yw adran 82 wedi cael ei defnyddio.

Nid oes dim sôn yn y setliad datganoli am sefyllfa Gweinidogion Cymru os ystyrir bod gweithredoedd arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol.

### Cydnawsedd deddfwriaeth Senedd Cymru

Mae adran 114(1)(d) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caiff Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn gwahardd Bil Senedd Cymru rhag cael ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol i gredu y byddai'r Bil yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol. Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth y DU ymyrryd ac atal Senedd Cymru rhag deddfu mewn ffordd sy'n torri rhwymedigaethau rhyngwladol.

Nid oes sôn yn y setliad datganoli am sefyllfa Senedd Cymru pe bai deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU mewn maes cymhwysedd datganoledig yn cael ei hystyried yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol.

### Cod y Gweinidogion

Mae paragraff 1.3 **Cod Gweinidogion** Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â›r gyfraith ac mae'n cynnwys yn benodol rwymedigaethau'n ymwneud â chyfraith a chytuniadau rhyngwladol. Mae gan Weinidogion Llywodraeth y DU hefyd ddyletswydd i gydymffurfio â›r gyfraith. Yn 2015, diwygiodd Llywodraeth y DU **ei Chod Gweinidogion** a dileu'r geiriau "international law and treaty obligation" mewn perthynas â dyletswydd cydymffurfio Gweinidogion. Fodd bynnag, **dyfarnodd y Llys Apêl yn ddiweddarach** nad oedd dileu'r geiriad wedi newid y rhwymedigaeth ar Weinidogion Llywodraeth y DU i gydymffurfio â rhwymedigaethau yn ymwneud â chyfraith a chytuniadau rhyngwladol.

# 7. Cymorth Ariannol a Rheoli Cymorthdaliadau

Mae cymalau 48 a 49 yn rhoi pŵer i Lywodraeth y DU ddarparu cymorth ariannol i unrhyw berson ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, ystod eang o ddibenion penodol. Mae'r dibenion hyn yn cynnwys hyrwyddo datblygiad economaidd, darparu seilwaith, cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol, a chefnogi gweithgareddau a rhaglenni cyfnewid addysgol a hyfforddi. Mae'n rhoi pŵer i Lywodraeth y DU ariannu gweithgaredd mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Mae cymal 50 yn rhoi'r gallu unigryw i Senedd y DU ddeddfu ar gyfer cyfundrefn rheoli cymorthdaliadau ar ôl i'r DU roi'r gorau i ddilyn rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE. O ran Cymru, mae'r cymal yn ychwanegu rheoleiddio cymorthdaliadau ystumiol a niweidiol at y rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn **Atodlen 7A** i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Y prif faterion

Mae Rhan 6 o'r Bil yn creu pŵer newydd sy'n caniatáu i Weinidogion y Goron Llywodraeth y DU ddarparu cyllid ar gyfer datblygu economaidd, seilwaith, diwylliant, gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau a rhaglenni cyfnewid addysgol a hyfforddi rhyngwladol.

**Dywed** Llywodraeth y DU y bydd y Bil yn caniatáu iddo gyflawni ei ymrwymiadau i ddarparu rhaglenni i ddisodli rhaglenni'r UE, megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan ddisodli cyfundrefn cronfeydd strwythurol gyfredol yr UE. Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi bod yn feirniadol o'r cynlluniau hyn yn y gorffennol, gan ddadlau y dylent gael eu cynnwys yn llawn mewn unrhyw gynllun disodli.

## 7.1. Cymorth Ariannol: trosolwg

Yn gyffredinol, dim ond os yw wedi cael ei hawdurdodi i wneud hynny gan ddeddfwriaeth y gall Llywodraeth y DU wario arian.

Mae dadansoddiad o'r **Bil gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin** yn gwrthgyferbynnu awdurdodiad deddfwriaethol o'r fath o dan **Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982** a'r darpariaethau o dan y Bil.

Mae'r Ddeddf Datblygu Diwydiannol yn gosod amodau llym ar sut y mae'n rhaid darparu cymorth ariannol.  Yn benodol, rhaid ei bod yn debygol y bydd cymorth o'r fath o fudd i economi'r DU (neu unrhyw ran ohoni), rhaid bod y ffordd y bwriedir darparu'r cymorth o fudd cenedlaethol, ac ni ddylai fod yn bosibl darparu'r cymorth mewn unrhyw ffordd arall. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod terfyn o £12 biliwn (y gellir ei gynyddu, gyda chaniatâd y Trysorlys, i uchafswm o £16 biliwn) ar gyfanswm y cymorth y gellir ei ddarparu i'r holl dderbynwyr.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, byddai cymal 48 o'r Bil yn rhoi pwerau eang i Lywodraeth y DU ddarparu cymorth a phrin iawn fyddai'r cyfyngiadau ar y pwerau hynny. Yn benodol, o dan gymal 48(2) o'r Bil, caniateir unrhyw fesur sy'n debygol o gyfrannu (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) at ddatblygiad economaidd.  Byddai hyn, yn ôl briff gan Dŷ'r Cyffredin, yn cwmpasu ystod eang iawn o weithgareddau heb gyfyngu ar faint o gymorth y gellid ei ddarparu o dan y Bil.

## 7.2. Rhyngweithio â llywodraethau datganoledig

Mae'r **Nodiadau Esboniadol** yn cydnabod bod dibenion Rhan 6 o'r Bil yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Dywed y nodyn ymhellach fod y pwerau newydd yn gorwedd ochr yn ochr â'r pwerau presennol y gall Llywodraeth y DU eu hariannu mewn perthynas â materion datganoledig ar draws y gwledydd datganoledig, yn enwedig Deddf Datblygu Diwydiannol 1982. Dywed y Nodyn esboniadol fod hyn yn creu modd i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid ar draws ystod o feysydd sy'n feysydd datganoledig i raddau helaeth a fyddai'n eistedd ochr yn ochr ag unrhyw gyllid a ddarperir gan y gweinyddiaethau datganoledig yn y meysydd hynny.

Yn ei erthygl ar y Bil **dadleuodd** yr Athro Daniel Wincott os yw Llywodraeth y DU yn bwriadu buddsoddi mewn meysydd datganoledig heb gyfranogiad y llywodraethau datganoledig, yna mae'r her i ddatganoli yn glir.

**Dywedodd** Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru fod Rhan 6 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU:

> [...] am y tro cyntaf yn yr 21 mlynedd ers datganoli, ariannu gweithgareddau mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru—nid ym maes datblygu economaidd yn unig, ond ym maes iechyd, tai, seilwaith addysgol, chwaraeon a diwylliant.

Dywedodd ymhellach fod "Llywodraeth yn San Steffan sy'n ceisio'r pŵer i wario mewn meysydd datganoledig a'r pŵer i reoli'r cyllid sydd ar gael, yn Llywodraeth sy'n ceisio torri ar ddatganoli".

Lleisiodd Gweinidogion Cyllid Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon **eu pryderon ar y cyd** am oblygiadau ariannol Bil Marchnad Fewnol y DU i lywodraethau datganoledig.  Gan gyfeirio at y Bil ar ôl cyfarfod ar y cyd, dywedodd Gweinidog Cyllid Cymru, Rebecca Evans AS:

> I am deeply concerned that the Bill gives UK Ministers, for the first time since devolution, powers to fund activity in areas which are clearly devolved to Wales.
>
> In Wales funding decisions are taken in partnership with local communities, to ensure that they reflect the needs of the people in Wales. The powers set out in the Bill completely undermine devolution and will see decisions currently taken in Wales clawed back by the UK Government.

Yn ystod dadl yn y Cyfnod Pwyllgor ar Ran 6 o'r Bil, **cadarnhaodd Chloe Smith AS,** y Gweinidog Gwladol dros Gyfansoddiad a Datganoli, y bydd Gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i gael cyllid trwy'r grant bloc a fformiwla Barnett, lle bo hynny'n briodol.  Mewn perthynas â chwmpas y pwerau cymorth ariannol yn y Bil, dywedodd:

> [T]he plans for investment will be at a strategic level, including on UK-wide projects, which would not be suitable to be blocked by any one part of the country.

## 7.3. Rheoli Cymorthdaliadau

Fel aelod o'r UE, mae'r DU wedi bod yn ddarostyngedig i reolau'r UE ar Gymorth Gwladwriaethol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r rheolau hyn hefyd yn gymwys i'r DU yn ystod y cyfnod pontio.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dadlau** bod cymorth gwladwriaethol wedi'i ddatganoli gan nad yw'n fater a gadwyd yn ôl o dan unrhyw bennawd o'r Atodlen Materion Wrth Gefn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.  Mewn gwrthgyferbyniad, mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei chred ers amser bod rheoleiddio cymorth gwladwriaethol yn fater a gedwir yn ôl, sy'n golygu mai Senedd y DU yn unig sy'n gyfrifol am y mater ac nad yw'r deddfwrfeydd datganoledig yn gallu deddfu yn y maes hwn.

Nid yw'r setliadau datganoli presennol yn cynnwys unrhyw amheuon cyffredinol penodol ar reoli cymhorthdal.

**Cadarnhaodd y Papur Gwyn** safbwynt Llywodraeth y DU fod rheoli cymhorthdal yn fater a gedwir yn ôl ac y bwriedir ei wneud yn eglur yn y Bil drwy ddeddfu ar gyfer materion newydd a gedwir yn ôl yn ymwneud â rheoli cymorthdaliadau yn y

gwahanol setliadau datganoli.

**Datgelwyd manylion cynllun arfaethedig ar gyfer y dyfodol** gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, y Gwir Anrhydeddus Alok Sharma AS ar 09 Medi 2020. Cyhoeddodd y bydd y Llywodraeth yn sefydlu trefn cymhorthdal annibynnol newydd yn seiliedig ar reolau Sefydliad Masnach y Byd ar gyfyngu ar gymorthdaliadau niweidiol pan ddaw'r cyfnod pontio i ben. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Llywodraeth hefyd yn cynnal ymgynghoriad ynghylch a ddylai'r DU fabwysiadu rheolau cymhorthdal sy'n mynd ymhellach na'i hymrwymiadau rhyngwladol.

**Noda'r** Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil:

> Devolved administrations will remain responsible for their own spending decisions on subsidies (how much, to whom and for what) within the architecture of any future subsidy control mechanism; this mirrors their current position, under EU State Aid rules.

**Gan wneud sylwadau** ar y cynigion yn y Bil i reoli cymhorthdal fo yn fater o gedwir yn ôl, awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AC, mai'r bwriad oedd "cau [Llywodraeth Cymru] allan rhag cyd-greu cyfundrefn cymorth gwladwriaethol gadarn ar gyfer y DU gyfan, ac mae'n fygythiad sylweddol i fusnesau Cymru".

# 8. Cymhwysedd Deddfwriaethol

O dan y Confensiwn Cydsyniad Deddfwriaethol, nid yw Senedd y DU fel rheol yn deddfu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig nac yn newid cymhwysedd y deddfwrfeydd datganoledig na llywodraethau heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig.

Mae Atodiad A i **Nodiadau Esboniadol** y Bil yn darparu bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer pob un o saith rhan y Bil, mewn perthynas â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol hefyd yn ei **lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin**, y bwriedir gofyn am gynigion cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil gan bob un o'r tair deddfwrfa ddatganoledig.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu yn y llythyr y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos â›r gweinyddiaethau datganoledig i ddeall unrhyw bryder a allai fod ganddynt ac

ymateb i hynny.

Yn **natganiad y Cwnsler Cyffredinol** ar 15 Medi, nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hwn yn "ddarn o ddeddfwriaeth sydd wedi'i ystyried yn wael ac sy'n niweidiol iawn". Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda gwleidyddion yn Senedd y DU i sicrhau na fydd y Bil yn dod yn gyfraith oni chaiff ei "ailwampio drwy welliant".

Ar 25 Medi 2020, gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** (y Memorandwm) ar y Bil gerbron y Senedd. Daw'r Memorandwm i ben trwy ddweud:

> "...mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig. Ond ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymell rhoi cydsyniad oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio'n helaeth i fynd i'r afael â'n pryderon sylweddol."

Ar 15 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **gyfres o welliannau arfaethedig** i'r Bil sydd eu hangen, meddai, iddi allu argymell ei chydsyniad i'r Bil. Eglurodd Llywodraeth Cymru fod Llywodraeth yr Alban yn gefnogol i'r gwelliannau ond na wnaeth weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru gan ei bod yn parhau i wrthwynebu'r cynigion yn y Bil yn sylfaenol.

## 8.1. Yr effaith ar gymhwysedd

Darperir enghreifftiau yn y Briff hwn yn amlinellu'r goblygiadau ymarferol y gallai'r darpariaethau yn y Bil hwn eu cael ar allu Senedd Cymru i arfer ei phwerau yn y dyfodol. Mae'r effaith ymarferol yn arbennig o amlwg mewn perthynas â mynediad at nwyddau (Rhan 1), gwasanaethau (Rhan 2) a chymwysterau proffesiynol (Rhan 3).

Ymhlith y materion allweddol eraill a nodwyd mewn perthynas â chymhwysedd, fel y trafodwyd eisoes yn y Briff hwn, mae'r canlynol:

- Mae Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio gan Ran 7. Mae Cymal 50(3) yn rhoi'r gallu unigryw i Senedd y DU ddeddfu ar gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau ar ôl i'r DU roi'r gorau i ddilyn rheolau cymorth gwladwriaethol.
- Mae Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn cael ei haddasu gan gymal 51(2), gan fod Bil y Farchnad Fewnol wedi'i gynnwys fel deddfiad gwarchodedig, sy'n golygu na all deddfwriaeth Senedd Cymru addasu'r Bil.
- Mae'r darpariaethau yn Rhan 6 yn rhoi pwerau i Lywodraeth y DU ddarparu

cymorth ariannol mewn unrhyw ran o'r DU. Gellir darparu cymorth ariannol mewn perthynas â nifer o feysydd datganoledig gan gynnwys iechyd, addysg a thai.

# 9. Ymatebion

## 9.1. Datganoli

Cyn i'r Bil gael ei gyhoeddi, **dywedodd Cwnsler Cyffredinol** Llywodraeth Cymru fod y Bil yn ymosodiad ar ddemocratiaeth ac y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i'w herio. Dywedodd nad oedd yn gweld **dim gobaith** y byddai Senedd Cymru yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol iddo. Gwnaeth y **Cwnsler Cyffredinol ddatganiad** ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi, gan ddweud:

- Byddai rhannau 1-3 o'r Bil ar fynediad i'r farchnad yn gwneud pwerau Senedd Cymru i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn 'ddiystyr' a byddent yn tanseilio gwaith rhynglywodraethol ar fframweithiau cyffredin;
- yn wahanol i Farchnad Sengl yr UE, ni fyddai'r darpariaethau ar fynediad i'r farchnad yn cynnig yr amddiffyniad o derfyn safonau; egwyddorion sybsidiaredd neu gymesuredd; neu eithriadau polisi cyhoeddus;
- byddai cymhlethdod y darpariaethau mynediad i'r farchnad yn 'rhoi llawenydd i gyfreithwyr';
- gallai gymeradwyo'n gyffredinol y rôl a gynigiwyd i Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn Rhan 4, ond ni ddylai un o gyrff Llywodraeth y DU ymgymryd â rôl o'r fath heb 'ddiwygio ei threfniadau llywodraethu'n helaeth';
- roedd y pwerau i weinidogion y DU wario mewn meysydd datganoledig yn ymgais i 'dorri ar ddatganoli';
- byddai cadw cymorth gwladwriaethol yn Rhan 7 yn 'ein cau ni allan rhag cyd-greu cyfundrefn cymorth gwladwriaethol gadarn';
- byddai Rhan 5 ar y Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn mynd yn groes i reolaeth y gyfraith.

**Dywedodd Llywodraeth yr Alban** ar 8 Medi y byddai'n amhosibl iddi argymell cydsynio i'r Bil. Mewn datganiad i Senedd yr Alban ar 10 Medi, **dywedodd Ysgrifennydd y Cyfansoddiad** mai'r Bil oedd y bygythiad mwyaf i ddatganoli er 1999 a chododd bryderon tebyg i Lywodraeth Cymru. Mewn llythyr at Lywodraeth y DU, eglurodd yr **Ysgrifennydd Busnes, Fiona Hyslop** safbwynt Llywodraeth yr Alban ar y darpariaethau mynediad i'r farchnad sydd yn y Bil yn fwy manwl.

**Dywedodd Llywodraeth yr Alban hefyd** y bydd yn cyhoeddi gwrthateb llawn i'r Bil. Ar 8 Hydref, **hysbysodd Llywodraeth yr Alban** Glerc Tŷ'r Cyffredin fod Senedd yr Alban wedi pleidleisio i ddal ei chydsyniad i'r Bil yn ôl. Roedd Aelodau Senedd yr Alban **wedi pleidleisio o 90 i 28** ar 7 Hydref.

Ystyriodd Tŷ'r Cyffredin Ran 4 o'r Bil ar rôl Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar 15 Medi. Gan ymateb i'r ddadl ar ran Llywodraeth y DU, **dywedodd Paul Scully, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Adran Bunes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol:**

> The Bill [...] works alongside these common frameworks to provide a broader structural underpinning, and offers additional protections to the status quo of UK trade, ensuring certainty for businesses and investors in the form of a backstop—if I may say that—of regulatory coherence. The UK Government continue to work closely and constructively with the devolved Administrations.

Mae gwahaniaeth barn ar Fil y Farchnad Fewnol ymysg Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, **ysgrifennodd y gweinidogion sy'n gyfrifol am seilwaith yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon** lythyr ar y cyd at Ysgrifennydd Trafnidiaeth y DU ar 16 Medi. Cododd y gweinidogion bryderon ynghylch penderfyniad Llywodraeth y DU i gyhoeddi adolygiad o gysylltedd heb ymgynghori ar 30 Mehefin. Nodant fod:

> Sections of the Internal Market Bill – notably section 46 – create a mechanism for the UK Government to spend money in areas related to infrastructure that are clearly devolved to Scotland, Wales and Northern Ireland and without any required engagement with the devolved governments. The connectivity review must not be positioned to create a list of schemes by which that new power can then be utilised without our consent as devolved ministers with devolved responsibility.

Ar 17 Medi, mynegodd **gweinidogion cyllid Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon bryder ar y cyd hefyd** y byddai'r pwerau gwariant yn y Bil yn diystyru'r setliad datganoli presennol.

Ystyriodd Tŷ'r Cyffredin Ran 6 o'r Bil ar gymorth ariannol ar 16 Medi. **Dywedodd Chloe Smith, y Gweinidog dros y Cyfansoddiad** fod Llywodraeth y DU:

> [...] want to continue to work with the devolved Administrations and local authorities to ensure that this power is used to best effect, augmenting the existing powers used to support citizens across the UK.

Dywedodd fod y pŵer yn golygu bod modd ystyried buddsoddi mewn seilwaith ar draws ffiniau'r gwledydd ac nad yw'n effeithio ar gymwyseddau'r Gweinyddiaethau datganoledig.

## 9.2. Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Mae **sefyllfa gyfreithiol** Llywodraeth y DU yn cadarnhau bod y cymalau sy'n ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon yn galluogi arfer pwerau mewn ffordd sy'n anghydnaws â›r Cytundeb Ymadael. Mae'r safbwynt yn honni bod egwyddor sofraniaeth seneddol yn caniatáu hyn:

> Parliament is sovereign as a matter of domestic law and can pass legislation which is in breach of the UK's Treaty obligations. Parliament would not be acting unconstitutionally in enacting such legislation (...) Under this approach, treaty obligations only become binding to the extent that they are enshrined in domestic legislation.

Dywedodd **Prif Weinidog y DU** wrth Dŷ'r Cyffredin fod angen y ddeddfwriaeth er mwyn diogelu proses heddwch Gogledd Iwerddon a Chytundeb Dydd Gwener y Groglith **ac mai ei** bwriad yw cynnal uniondeb economaidd, gwleidyddol a thiriogaethol y Deyrnas Unedig.

### Ymateb yr UE

Yn wreiddio **trydarodd** Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Ursula Von Der Leyen y byddai torri cyfraith ryngwladol yn tanseilio ymddiriedaeth gan ddyfynnu egwyddor cyfraith ryngwladol *pacta sunt servanda*, sydd wedi'i chodeiddio yn Erthygl 26 o Gonfensiwn Fienna ar Gyfraith Cytuniadau 1969, bod pob cytuniad sydd mewn grym yn rhwymo'r partïon iddo a bod yn rhaid iddynt ei gyflawni'n ddidwyll. Yn ddiweddarach, yn ei **haraith ar Gyflwr yr Undeb,** dyfynnodd Llywydd y Comisiwn y cyn Brif Weinidog, Margaret Thatcher, gan ddweud:

> "Britain does not break Treaties. It would be bad for Britain, bad for relations with the rest of the world, and bad for any future Treaty on trade." This was true then, and it is true today.

Ar 1 Hydref, lansiodd Comisiwn yr UE achos o dor rheolau yn erbyn y DU, a drafodir uchod yn adran 6.5.

### Ymateb Iwerddon

**Cadarnhaodd Micheál Martin,** Taoiseach Iwerddon, ar 13 Medi fod Aelod-wladwriaethau'r UE27 yn unedig wrth alw am weithredu'r Cytundeb Ymadael yn llawn. Mewn **cyfweliad â CNN,** disgrifiodd ddull y DU fel un sy'n symud i ffwrdd o normau ymddygiad a diplomyddiaeth. Dywedodd ei fod wedi annog Prif Weinidog y DU i ail-ymgysylltu ar fyrder â›r UE. **Disgrifiodd Gweinidog Materion Tramor ac Amddiffyn Iwerddon,** Simon Coveney, yr iaith a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU fel iaith ymfflamychol.